estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant

## Arfer dda o ran cefnogi dysgwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT) mewn ysgolion a cholegau

Hydref 2020



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Terminoleg** | **1** |
| **Cefndir ac ymchwil** | **2** |
| **Prif ganfyddiadau** | **10** |
| **Argymhellion** | **12** |
| **1 Profiad dysgwyr LGBT mewn ysgolion a cholegau** | **13** |
| **2 Sicrhau bod profiadau dysgu yn dathlu amrywiaeth ac yn hyrwyddo cynhwysiant** | **17** |
| **3 Cymorth ar gyfer dysgwyr LGBT** | **21** |
| **4 Effaith arweinyddiaeth** | **27** |
| **5 Dysgu proffesiynol** | **33** |
| **Atodiad 1: Cwestiynau hunanwerthuso i gefnogi cynnwys dysgwyr LGBT** | **35** |
| **Atodiad 2: Sail y dystiolaeth** | **36** |
| **Geirfa** | **38** |
| **Cyfeiriadau** | **40** |

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT), yn ogystal â'r rhai sy'n cwestiynu eu cyfeiriadedd rhywiol neu'u hunaniaeth o ran rhywedd. Mae'n amlygu arfer dda wrth greu diwylliannau mewn ysgolion neu golegau sy'n dathlu amrywiaeth, yn blaenoriaethu cynhwysiant ac yn mynd i'r afael â materion LGBT mewn modd sy'n briodol i ddatblygiad. Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, UCDau, colegau, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o adroddiadau arolygu ac o ymweliadau â detholiad o ysgolion a cholegau addysg bellach ledled Cymru lle mae arolygiadau, neu waith consortia rhanbarthol, wedi nodi darpariaeth gref iawn ar gyfer dysgwyr LGBT. Mae'n cynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer effeithiol drwyddi draw. Nid yw rhai ysgolion a ddefnyddir fel enghreifftiau yn yr adroddiad hwn wedi cael eu henwi oherwydd natur sensitif yr achos dan sylw. Gweler Atodiad 2 am ragor o fanylion am sail y dystiolaeth.

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ddiwygio mewn ychydig o leoedd ym mis Mehefin 2025 i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol yng nghyd-destun y datblygiadau cyfreithiol a pholisi diweddaraf yn y maes hwn.

## Terminoleg

Trwy gydol yr adroddiad hwn, rydym ni'n defnyddio'r derminoleg ganlynol i gyfeirio at hunaniaethau LGBT:

- Mae'r termau **lesbiaidd**, **hoyw** a **deurywiol** yn disgrifio 'cyfeiriadedd rhywiol' rhai pobl. Atyniad emosiynol, rhamantus a/neu rywiol unigolyn at unigolyn arall yw cyfeiriadedd rhywiol.
- Mae **lesbiaidd** yn golygu menyw sydd ag atyniad emosiynol, rhamantus a/neu rywiol tuag at fenywod.
- Mae **hoyw** yn golygu dyn sydd ag atyniad emosiynol, rhamantus a/neu rywiol tuag at ddynion. Hefyd, mae'n derm generig am rywioldeb lesbiaidd a hoyw, ac mae rhai menywod yn nodi eu bod yn hoyw yn hytrach na lesbiaidd.
- Mae **deurywiol** (neu 'bi') yn golygu unigolyn sydd ag atyniad emosiynol, rhamantus a/neu rywiol tuag at bobl o'r naill ryw neu'r llall
- Mae **trawsryweddol** yn air sy'n disgrifio'r bobl hynny nad yw eu hymdeimlad personol o hunaniaeth o ran rhywedd yr un fath â'u rhyw biolegol.

Yn yr adroddiad hwn, gellir deall bod y term LGBT yn cyfeirio at y rhai sy'n cwestiynu eu cyfeiriadedd rhywiol neu'u hunaniaeth o ran rhywedd hefyd, ac at y rhai sy'n nodi eu bod yn amrywiolion o fod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsryweddol.

# Cefndir ac ymchwil

## Y fframwaith deddfwriaethol

Yn 2003, diddymodd llywodraeth y DU Adran 28 Deddf Llywodraeth Leol 1988. Nododd y ddeddfwriaeth hon ‘na ddylai awdurdod lleol hyrwyddo cyfunrhywiaeth yn fwriadol na chyhoeddi deunydd gyda’r bwriad o hyrwyddo cyfunrhywiaeth’ na, ‘hyrwyddo addysgu derbynioldeb cyfunrhywiaeth mewn unrhyw ysgol a gynhelir fel perthynas deuluol honedig’ (Prydain Fawr, 1988). Fe wnaeth ddeddfwriaeth ddilynol unioni effaith negyddol y cymal hwn ar gynnwys disgyblion LGBT a gosod dyletswyddau penodol ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion ac awdurdodau lleol, mewn perthynas â phobl LGBT. Yn benodol, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu’r ddeddfwriaeth allweddol sy’n ategu polisi ac arweiniad ar lefelau llywodraeth y DU a llywodraeth Cymru. Mae’n diffinio naw o ‘nodweddion gwarchodedig’ ac yn ei gwneud yn anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un oherwydd:

- oedran
- ailbennu rhywedd
- bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- bod yn feichiog neu ar gyfnod absenoldeb mamolaeth
- anabledd
- hil, yn cynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol (Prydain Fawr, 2010).

Ym 1991, cadarnhaodd Llywodraeth y DU Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (1989). Mae’r hawliau sydd wedi eu cynnwys yn y Confensiwn yn gyd-ddibynnol a diwahân, ond mae cynnwys Erthygl 2 yn hynod berthnasol i faterion LGBT, yn amlinellu’r hawl i bob plentyn fod yn rhydd o wahaniaethu ‘beth bynnag fo’i… hil, lliw, rhyw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu farn arall, tarddiad cenedlaethol, ethnig neu gymdeithasol, statws eiddo, anabledd, geni neu statws arall’ (Y Cenhedloedd Unedig, 1989). Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi ystyriaeth briodol i’r hawliau a’r rhwymedigaethau o fewn CCUHP a’i brotocolau dewisol.

Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddwyd y dyfarniad ar gyfer achos For Women Scotland Ltd (Appellant) v The Scottish Ministers (Respondent). Eglurodd y dyfarniad hwn, at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010, fod y termau ‘menyw’ (‘woman’), ‘dyn’ (‘man’), a ‘rhyw’ (‘sex’) yn cyfeirio at fenyw fiolegol, dyn biolegol a rhyw biolegol. Mae Estyn yn ymwybodol o’r goblygiadau a gaiff y dyfarniad hwn ar ofodau ar wahân a gofodau’r un rhyw, h.y. fod yn rhaid i fynediad at gyfleusterau un rhyw, fel toiledau neu ystafelloedd newid, gael ei seilio ar ryw biolegol, nid hunaniaeth rhywedd, ac y dylai ysgolion ystyried trefniadau amgen i gefnogi disgyblion trawsryweddol, yn ôl yr angen. Gall ysgolion ddod o hyd i’r arweiniad diweddaraf yn ymwneud â’r dyfarniad ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae cyfeiriadedd rhywiol, rhyw ac ailbennu rhywedd i gyd yn parhau'n nodweddion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae disgyblion trawsryweddol yn parhau i gael eu hamddiffyn o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhinwedd eu nodwedd ailbennu rhywedd; maent yn parhau i gael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth yn seiliedig ar achosion gwirioneddol, canfyddedig neu gysylltiad ag ailbennu rhywedd.

Mae'n bwysig o hyd bod diogelwch a diogelu yn erbyn niwed i bob disgybl, gan gynnwys disgyblion trawsryweddol, yn cael ei feithrin ar draws ysgolion. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau ac arfer y gallai ysgolion a cholegau ddymuno'u hystyried wrth adolygu eu darpariaeth. Mae gan ysgolion a cholegau ddyletswydd i ystyried pob cangen o'u Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010), yn enwedig wrth bennu p'un a ddylid cyflwyno arferion neu weithdrefnau newydd o ran y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, fel rhyw neu ailbennu rhywedd. Mae ysgolion a cholegau dan rwymedigaeth hefyd i sicrhau bod camau priodol ac effeithiol yn cael eu cymryd i ddileu neu leihau anfanteision sy'n cael eu hwynebu gan ddysgwyr o ganlyniad i'r ffaith fod ganddynt nodweddion gwarchodedig. Dylai pob ysgol, coleg neu ymarferwr unigol gynnal ei adolygiad ei hun o'r ddogfen arfer dda hon a phenderfynu p'un a allai unrhyw un o'r arferion y cyfeirir atynt fod yn berthnasol neu'n briodol i'w sefydliad. Os oes ganddo amheuaeth, dylai'r darparwr ofyn am gyngor cyfreithiol neu gyngor arbenigol arall.

## Adroddiadau ac arweiniad ychwanegol

Yn ogystal â deddfwriaeth benodol, mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill wedi cyhoeddi adroddiadau ac arweiniad sy'n sail i waith llawer o ddarparwyr effeithiol.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' (2006, diweddarwyd 2016) yn amlygu'r ffaith y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar rai disgyblion i'w galluogi i ddeall yn llawn eu teimladau am eu cyfeiriadedd rhywiol neu'u hunaniaeth o ran rhywedd, a delio â safbwyntiau negyddol pobl eraill. Mae'n awgrymu bod disgyblion LGBT a'r rhai sy'n cwestiynu eu hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol yn fwy tebygol o fod yn darged bwlio. Aeth canllawiau ychwanegol ar fynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig (Llywodraeth Cymru, 2011) i'r afael â hyn yn fwy penodol. Adnewyddodd Llywodraeth Cymru ei hymagwedd gyffredinol at fwlio gyda chyfres o ganllawiau ar gyfer ysgolion, rhieni, awdurdodau lleol a phobl ifanc (Llywodraeth Cymru, 2019c). Mae hyn yn cynnwys arweiniad statudol ar gyfer ysgolion sy'n disgwyl i ddysgwyr sy'n LGBT, neu'n cwestiynu eu cyfeiriadedd rhywiol neu'u hunaniaeth o ran rhywedd, i 'gael eu hystyried yn ofalus mewn strategaeth ysgol ar atal bwlio' (Llywodraeth Cymru, 2019b, tud.23).

Yn 2019, bu Llywodraeth Cymru (2019a) yn ymgynghori ar ganllawiau drafft ar addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod 'ymarferwyr a dysgwyr yn cydnabod perthynas ac amrywiaeth rywiol, ac yn dangos parch at eraill beth bynnag yw eu hunaniaeth o ran rhywedd a mynegi cyfeiriadedd rhywiol' (Llywodraeth Cymru, 2019a, tud.7). Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd addysg cydberthynas a rhywioldeb yn orfodol i bob disgybl pan gaiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno yn 2022, a bydd hawl rhieni i eithrio eu plant o wersi cysylltiedig yn cael ei dileu.

Mae Stonewall wedi cyhoeddi arweiniad helaeth ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd a cholegau addysg bellach yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn gysylltiedig â dysgwyr LGBT. Mae hyn yn cynnwys arweiniad ar fynd i'r afael â bwlio homoffobig (Stonewall 2016a, 2016b), sut i greu amgylchedd ysgol neu goleg cynhwysol (2018a), herio stereoteipiau yn y blynyddoedd cynnar (2017a) a mynd i'r afael ag iaith homoffobig, deuffobig a thrawsffobig (Stonewall, 2019).

Mae'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019e) yn amlinellu'r gofyniad i wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol ac ysgolion a cholegau weithio'n agosach gyda'i gilydd i ddarparu cymorth gwell ar gyfer pobl ifanc. Mae hyn yn darparu'r cyd-destun polisi ar gyfer cydweithio rhwng darparwyr addysg anffurfiol, darparwyr nad ydynt yn ffurfiol, a darparwyr ffurfiol, ar gyfer darparu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc, gan gynnwys y bobl ifanc hynny sy'n nodi eu bod yn LGBT.

## Canfyddiadau ymchwil

Mae ymchwil yn rhoi darlun llwm o fywyd ysgol i lawer o ddisgyblion LGBT. Er enghraifft, mae 'Adroddiad Ysgol' Stonewall (2017c) yn defnyddio holiadur ar-lein a lenwyd gan 3,713 o bobl ifanc LGBT sy'n 11-19 oed o bob cwr o'r DU. Mae hyn yn amlygu'r heriau y mae llawer o ddisgyblion LGBT yn eu hwynebu o ran eu profiad o fwlio, pa mor dda y mae ysgolion yn ymateb i hyn, a'r graddau y mae ysgolion yn mynd i'r afael â materion LGBT fel rhan o'r cwricwlwm. Mae adroddiad 2017 yn dangos gwelliannau araf yn y meysydd hyn ers adroddiadau blaenorol Stonewall yn 2007 a 2012.

- Mae adroddiad 2017 yn dangos bod 45% o ddisgyblion LGBT yn profi bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig o gymharu â 55% yn 2012, a 65% yn 2007.
- Dywed 40% o ddisgyblion nad yw ysgolion wedi eu haddysgu am faterion LGBT, o gymharu â 53% yn 2012, a 70% yn 2007 (Stonewall, 2017c, tud.8).

Mae iechyd meddwl gwael yn parhau i fod yn amlwg mewn disgyblion LGBT ledled y DU:

- Mae adroddiad 2017 yn datgan bod 61% o ddisgyblion LGBT wedi hunan-niweidio, o gymharu â 56% yn 2012.
- Mae 22% o ddisgyblion LGBT wedi ceisio lladd eu hunain, sy'n parhau yn debyg i'r ffigur 23% yn 2012 (Stonewall, 2017c, tud.8).


Yng Nghymru, defnyddiodd 'Adroddiad Ysgol Cymru' (2017b) ganlyniadau holiadur ar-lein a lenwyd gan 267 o ddisgyblion LGBT. Canfu'r adroddiad fod tua hanner y disgyblion LGBT yng Nghymru, gan gynnwys llawer o ddisgyblion trawsryweddol, yn cael eu bwlio am fod yn LGBT. Dywed tua hanner y disgyblion hyn nad ydynt yn adrodd am achos i unrhyw un, a lleiafrif ohonynt yn unig sy'n awgrymu bod athrawon yn ymyrryd os ydynt yn bresennol pan fydd y bwlio'n digwydd. Dywed mwyafrif o ddisgyblion LGBT yng Nghymru nad oes oedolyn yn yr ysgol y gallant siarad ag ef / â hi ynglŷn â bod yn LGBT. Mae'r un gyfran o ddisgyblion trawsryweddol yn dangos nad yw staff yn eu hysgol yn gyfarwydd â'r term 'traws' a beth mae'n ei olygu. Ni addysgir unrhyw beth am faterion LGBT i fwy na hanner y disgyblion LGBT yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod disgyblion LGBT yn fwy tebygol o brofi lefelau lles gwael. Mae tua hanner y disgyblion LGBT wedi aros i ffwrdd o'r ysgol o ganlyniad i fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig. Mae llawer o ddisgyblion trawsryweddol wedi niweidio eu hunain yn fwriadol ar ryw adeg, ac mae llai na hanner ohonynt wedi ceisio lladd eu hunain. Mae mwyafrif o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol nad ydynt yn drawsryweddol wedi hunan-niweidio, ac mae lleiafrif ohonynt wedi ceisio lladd eu hunain (Stonewall, 2017b, tt.20-21).

**Ffigur 1: Canfyddiadau 'Adroddiad Ysgol Cymru' Stonewall (2017)**

Mae

# 54%


o ddisgyblion LGBT yn cael eu bwlio am fod yn LGBT.



Mae

# 73%


o ddisgyblion traws yn cael eu bwlio am fod yn draws.



Mae

# 47%


o'r disgyblion hyn yn datgan nad ydynt yn rhoi gwybod i unrhyw un am achosion o fwlio.



Mae

# 25%


yn awgrymu bod athrawon yn ymyrryd os ydynt yn bresennol pan fydd bwlio'n digwydd.



Mae

# 62%


o ddisgyblion LGBT yng Nghymru yn dweud nad oes yna oedolyn yn yr ysgol y gallant siarad ag ef / â hi ynglŷn â bod yn LGBT.



Mae

# 62%


o ddisgyblion traws yn nodi nad yw staff yn eu hysgol yn gyfarwydd â'r term 'traws', a beth mae'n ei olygu.



Mae

# 58%


o ddisgyblion LGBT yn cael unrhyw beth am LGBT wedi'i addysgu iddynt yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.




Mae

# 51%


o ddisgyblion LGBT wedi aros draw o'r ysgol o ganlyniad i fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig.




Mae
# 77%
o ddisgyblion LGBT wedi niweidio eu hunain yn fwriadol ar ryw adeg.




Mae
# 41%
o ddisgyblion LGBT wedi ceisio lladd eu hunain.



Mae
# 61%
o ddisgyblion lesbiaid hoyw a deurywiol nad ydynt yn drawsryweddol wedi hunan-niweidio.



Mae
# 25%
o ddisgyblion lesbiaidd, hoyw a deurywiol nad ydynt yn drawsryweddol wedi ceisio lladd eu hunain.



Ceir ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen i wella'r profiad addysgol ar gyfer dysgwyr LGBT ac i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael addysg well ynghylch materion LGBT. Er enghraifft, fe wnaeth y prosiect 'No Outsiders' (DePalma ac Atkinson, 2009) gefnogi 15 o athrawon cynradd yn gweithio mewn tair rhanbarth ledled y DU dros 28 mis i ddatblygu prosiectau ymchwil weithredu sy'n mynd i'r afael â chydraddoldeb o ran LGBT yn eu hysgolion a'u hystafelloedd dosbarth eu hunain. Seiliodd athrawon eu prosiectau ar bedair egwyddor arweiniol gytûn ar gyfer addysg LGBT, sef:

1. Rhaid iddi fod yn wirfoddol ac yn athro-ganolog.
2. Rhaid iddi gael ei chefnogi a'i chydnabod yn gyhoeddus gan gyrff pwerus y llywodraeth a chyrff addysgol pwerus.
3. Rhaid iddi fod ar y cyd a chynnwys cymorth ar y cyd.
4. Rhaid iddi gael ei llywio gan arbenigedd, a rhaid cyflenwi adnoddau ar ei chyfer.

Yn 'Bullying, cussing and mucking about' (Warwick ac Aggleton, 2014), mae'r awduron yn trafod sut mae tair ysgol uwchradd yn ne Llundain yn mynd i'r afael â homoffobia. Mae canfyddiadau allweddol yn awgrymu bod y rhan fwyaf o staff yn gweld gwaith ar homoffobia a bwlio homoffobig yn rhan o ymrwymiad cyffredinol i wrthsefyll bwlio, bod disgyblion yn mynegi awydd i fynd i'r afael â bwlio homoffobig, a gwahaniaethu rhwng bwlio a rhegi neu 'chwarae o gwmpas'. Mae'r erthygl yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â bwlio homoffobig, nid yn unig drwy ymateb i achosion wrth iddynt godi, ond trwy sicrhau gwelliannau i ansawdd yr addysgu a'r dysgu o ran materion LGBT. Mae'r awduron yn diweddu trwy awgrymu bod atebion i fynd i'r afael â bwlio homoffobig eisoes i'w gweld mewn llawer o ysgolion, gan nodi:

> *'Er bod llawer o ysgolion lle mae homoffobia a bwlio homoffobig yn parhau i effeithio ar bobl ifanc … mae yna hefyd bobl ifanc ac athrawon – nad ydyn nhw'n lesbiaidd neu'n hoyw eu hunain, o reidrwydd – sy'n gwrthsefyll ac yn gwrthwynebu homoffobia a'r niwed mae'n ei achosi. Yn broffesiynol ac yn wleidyddol, dylem ofalu ein bod yn cydnabod, i ddysgu oddi wrth, a'i gwneud yn fwy hysbys, yr hyn y mae pobl ifanc ac athrawon o'r fath yn ei gyflawni'n llwyddiannus'* (Warwick ac Aggleton, 2014, tt.170-1).

Mae 'Primary best practice guide' (2018b) gan Stonewall yn amlygu arferion da o bob cwr o'r DU. Mae'n pwysleisio ei bod yn bwysig i arweinwyr greu ethos sy'n dangos bod yr ysgol yn cymryd bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig o ddifrif, ac yn rhoi'r hyder i staff ddelio ag ef yn gadarn. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cynnwys disgyblion mewn datblygu ymagwedd yr ysgol, ac yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant perthnasol i gydnabod a goresgyn bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig fel mae'n codi. Mae'r adroddiad yn cysylltu gwaith ar faterion LGBT ag agweddau ehangach yn ymwneud â chynhwysiant a pharch, ac yn darparu arweiniad i ysgolion ar sut i greu cwricwlwm cynhwysol sy'n mynd i'r afael â pherthnasoedd o'r un rhyw mewn ffordd sy'n briodol i ddatblygiad, er enghraifft trwy ddefnyddio llyfrau stori. Mae'n darparu arweiniad ar ffyrdd i herio stereoteipio o ran rhywedd a dathlu gwahaniaeth, ac yn annog ysgolion i ymgysylltu â rhieni i esbonio eu hymagwedd at hyrwyddo cynhwysiant.

# Prif ganfyddiadau

## Ble mae darpariaeth yn fwyaf effeithiol

1 Mewn ysgolion a cholegau sydd â diwylliant cryf o gynhwysiant, mae dysgwyr LGBT yn ffynnu. Yn yr achosion hyn, maent yn teimlo mor hyderus â'u cyfoedion i fynegi eu teimladau a'u credoau. Maent yn mwynhau synnwyr cryf o les ac yn cymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol neu'r coleg.

2 Yn yr ysgolion neu'r colegau hyn, mae bron pob un o'r dysgwyr yn gweld cyfeiriadedd rhywiol fel ffurf arall ar amrywiaeth y dylid ei dathlu ynghyd â nodweddion gwarchodedig eraill, fel hil, crefydd, rhyw ac anabledd.

3 Mae'r ysgolion a'r colegau hyn yn adolygu eu cwricwlwm i ymgorffori materion LGBT mewn ffordd sy'n briodol i ddatblygiad yn effeithiol. O ganlyniad, mae dysgwyr yn gweld modelau rôl LGBT cadarnhaol trwy eu profiadau dysgu ac yn eu hamgylchedd ysgol neu goleg yn rheolaidd.

4 Mae'r ysgol neu'r coleg yn mynd ati i ymgysylltu â rhieni a'r gymuned ehangach, gan gynnwys grwpiau ffydd, i sicrhau eu bod yn deall ymagwedd y sefydliad at ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant. Maent yn cydnabod y gallai rhai rhanddeiliaid herio hyn a gwrando ar wahanol safbwyntiau, a'u hystyried, ond gweithredu er lles dysgwyr yn y pen draw.

5 Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu yn herio stereoteipiau rhywedd ac yn mynd i'r afael â materion cysylltiedig fel y maent yn codi. Mae dysgwyr yn dechrau deall effaith negyddol stereoteipio o ran rhywedd o oedran ifanc.

6 Nid yw bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig yn digwydd yn aml, ac ymdrinnir ag ef yn gadarn pan fydd achosion yn codi. Mae arweinwyr yn gweithio gyda staff a dysgwyr i ddatblygu eu polisi a'u gweithdrefnau gwrthfwlio i sicrhau eu bod yn cydnabod, yn cofnodi ac yn mynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig. Maent yn creu amgylchedd lle mae staff a dysgwyr yn teimlo'n hyderus i herio bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig, a defnyddio iaith homoffobig.

7 Mae arweinwyr yn rhoi systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn gwybod sut i droi at aelod o staff am faterion personol, gan gynnwys rhai yn gysylltiedig â materion LGBT a 'dod allan'. Maent yn sicrhau bod staff bugeiliol penodol yn meddu ar y medrau a'r wybodaeth i gefnogi dysgwyr i wneud penderfyniadau diogel, ond bod gan bob un o'r staff yr hyder hefyd i ymateb i'r cwestiynau a'r pryderon am faterion LGBT a godir gan ddysgwyr.

8 Mae grwpiau llais y disgybl a llais y dysgwr yn darparu rhwydwaith cymorth gwerthfawr ar gyfer pobl ifanc LGBT. Yn yr achosion gorau, maent yn darparu adborth gwerthfawr i ysgolion a cholegau ar brofiad dysgwyr LGBT. Mae arweinwyr yn ystyried y wybodaeth hon yn ofalus i addasu eu polisïau a'u cwricwlwm i wella profiad addysgol dysgwyr LGBT a hyrwyddo cynhwysiant i bawb.

9 Mae ysgolion a cholegau yn cysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr, a meddygon teulu mewn amgylchiadau priodol, i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu dysgwyr trawsryweddol, y rhai sy'n cwestiynu eu hunaniaeth o ran rhywedd, a'r rhai sydd wrthi'n newid eu rhyw. Maent yn cydnabod nad oes ateb cyffredin na syml i'r heriau hyn, a bod angen hyblygrwydd a deialog â phawb sydd ynghlwm.

10 Pan fydd y ddarpariaeth ar ei chryfaf, mewn tua thraean o ysgolion ac yn y rhan fwyaf o golegau, mae arweinwyr yn dangos diben moesol clir tuag at hyrwyddo cynhwysiant a dathlu amrywiaeth. Maent yn sefydlu ethos sy'n hyrwyddo unigoliaeth, goddefgarwch a pharch. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les yr holl ddysgwyr. Yn yr ysgolion a'r colegau mwyaf cynhwysol, mae staff LGBT yn teimlo eu bod yn gallu trafod eu bywydau personol a'u perthnasoedd gyda disgyblion a chydweithwyr o fewn canllawiau sydd yr un mor berthnasol i staff LGBT a heterorywiol.

11 Mae arweinwyr yn blaenoriaethu ystyried lles ac iechyd meddwl dysgwyr yn eu trefniadau hunanwerthuso. Maent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglant i ystyried darpariaeth ar gyfer dysgwyr LGBT a pha mor dda y mae eu cwricwlwm a'u hamgylchedd dysgu yn annog dathlu amrywiaeth ac yn hyrwyddo cynhwysiant. Mae casglu safbwyntiau'r holl ddysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n LGBT, yn rhan bwysig o hyn.

12 Mae arweinwyr yn sicrhau dysgu proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff sy'n datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u hyder i gefnogi dysgwyr LGBT ac yn cynorthwyo i greu ethos cynhwysol. Yn aml, mae hyn yn cynnwys mewnbwn gan bartneriaid allanol arbenigol, gan gynnwys darparu hyfforddiant ar gyfer staff penodol sy'n eu galluogi i gyflwyno dysgu proffesiynol i gydweithwyr yn eu sefydliad eu hunain.

### Ble mae darpariaeth yn llai cryf

13 Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr LGBT yn wynebu lefelau amrywiol o fwlio a gwahaniaethu sy'n cael effaith negyddol ar eu profiad yn yr ysgol neu goleg, gan arwain at bresenoldeb gwaelach a chynnydd academaidd arafach na'u cyfoedion.

14 Yn gyffredinol, nid yw dysgwyr yn gweld modelau rôl LGBT cadarnhaol fel rhan o'u cwricwlwm neu o gwmpas eu hysgol neu goleg. Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn datblygu safbwyntiau negyddol am bobl LGBT ac na fydd dysgwyr LGBT yn gwerthfawrogi y gallant fod yr un mor llwyddiannus â dysgwyr eraill.

15 Mae mynd i'r afael â materion LGBT yn rhan ychwanegol o ddarpariaeth yr ysgol neu'r coleg, er enghraifft gydag athrawon yn mynd i'r afael â nhw fel rhan o sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn unig. Gallai hyn atgyfnerthu'r ymdeimlad fod pobl LGBT yn fater arbennig y mae angen ei drafod, yn hytrach nag yn rhan o fywyd bob dydd.

16 Nid yw arweinwyr yn sicrhau bod achosion o fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsryweddol yn cael eu cofnodi neu fod tueddiadau'n cael eu nodi ac y gweithredir yn unol â nhw, nac yn sicrhau bod staff yn ymgymryd â dysgu roffesiynol o ansawdd uchel sy'n rhoi hyder iddynt gefnogi dysgwyr LGBT.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion a cholegau:**

A1 Adolygu cynnwys eu cwricwlwm a'u cyrsiau unigol i ystyried pa mor dda y caiff addysgu amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys materion LGBT, ei integreiddio mewn profiadau dysgu

A2 Sicrhau bod achosion o fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig yn cael eu cofnodi, a bod tueddiadau'n cael eu nodi, ac y gweithredir yn unol â nhw

A3 Sicrhau bod pob un o'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant rheolaidd i fynd i'r afael â gwahaniaethu a hyrwyddo amrywiaeth, gan gynnwys materion yn ymwneud â phobl LGBT

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia:**

A4 Weithio gyda phartneriaid allanol i gyflwyno cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ar gyfer staff mewn ysgolion ar draws sectorau cynradd ac uwchradd

A5 Gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i sicrhau dilyniant mewn addysg cydberthynas a rhywioldeb rhwng sectorau

## 1 Profiad dysgwyr LGBT mewn ysgolion a cholegau

17 Mewn ysgolion a cholegau lle mae hanes cryf o ddathlu amrywiaeth a chefnogi cynhwysiant, mae dysgwyr LGBT a'r rhai sy'n cwestiynu eu rhywedd neu'u cyfeiriadedd rhywiol yn ffynnu. Yn yr achosion hyn, mae gan ysgolion a cholegau rôl bwysig mewn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a'u bod yn gallu troi at oedolion sydd â'r hyder a'r medrau i drafod materion sy'n berthnasol i ddysgwyr LGBT. Mae'r ysgolion hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu gwydnwch ac yn eu cynorthwyo i fynd i'r afael â'r rhagfarn y maent yn ei brofi yn y gymdeithas yn ehangach. Yn yr ysgolion a'r colegau hyn, mae achosion o fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig yn brin.

18 Mae llawer o'r ysgolion a'r colegau y gwnaethom ymweld â nhw ar gyfer yr adroddiad hwn yn creu diwylliant cryf o gynhwysiant lle caiff amrywiaeth ei dathlu. Yn y darparwyr hyn, mae dysgwyr LGBT yn teimlo'r un mor hyderus â'u cyfoedion yn mynegi eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth o ran rhywedd. Maent yn mwynhau synnwyr cryf o les ac yn cymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol neu'r coleg.

19 Mae'r rhan fwyaf o golegau yn gweithio'n dda i sicrhau amgylchedd cadarnhaol ar gyfer dysgwyr LGBT. Er enghraifft, maent yn arddangos deunyddiau sy'n hyrwyddo materion LGBT, ac yn dathlu mis LGBT trwy gynnal gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth am y gymuned hon. Mae llawer o staff colegau yn gwisgo laniardiau enfys i ddangos eu cefnogaeth i'r gymuned, ac mae uwch reolwyr yn cefnogi ymglymiad disgyblion mewn digwyddiadau Pride. Mewn llawer o golegau, mae arweinwyr yn cynnwys materion LGBT yn eu cynllunio strategol, er enghraifft sicrhau bod cyfnod ymsefydlu ar gyfer dysgwyr a staff newydd yn cwmpasu materion LGBT a materion cysylltiedig. Yn yr achosion hyn, mae dysgwyr LGBT yn teimlo'n gysurus yn mynegi eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth o ran rhywedd, ac maent yn hyderus yn siarad â staff pan fydd ganddynt broblemau neu bryderon.

20 Pan fydd ysgolion yn blaenoriaethu cynhwysiant fel rhan o'u cwricwlwm, mae disgyblion yn gweld modelau rôl LGBT cadarnhaol yn rheolaidd trwy eu profiadau dysgu, ac fe gânt eu portreadu o gwmpas yr ysgol. Maent yn deall y gall pobl LGBT fod yr un mor llwyddiannus â phobl heterorywiol. Mae hyn yn helpu gwella hyder a dyheadau disgyblion LGBT. Mewn llawer o'r ysgolion cynradd y gwnaethom ymweld â nhw, mae portreadu perthnasoedd o'r un rhyw yn rhan annatod o ymagwedd yr ysgol at bortreadu delweddau cadarnhaol o'r holl nodweddion gwarchodedig. Yn yr achosion hyn, mae mwy o debygolrwydd bod disgyblion yn derbyn perthnasoedd o'r un rhyw yn gynnar, ac o bosibl, cael llai o anesmwythder os ydynt yn cwestiynu eu rhywioldeb eu hunain wrth iddynt dyfu'n hŷn.

21 Mewn ysgolion sy'n sicrhau bod systemau effeithiol i ddisgyblion godi materion personol a bod staff yn hyderus yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd, mae disgyblion LGBT yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â throi at aelodau staff am gyngor ac arweiniad. Mewn lleiafrif o'r ysgolion uwchradd y gwnaethom ymweld â nhw, caiff pob un o'r staff hyfforddiant

perthnasol, ac mae disgyblion yn ymwybodol o nifer o unigolion y gallent siarad â nhw. Mewn colegau effeithiol, mae llawer o staff yn gwisgo laniardiau enfys fel bod dysgwyr yn gwybod y byddant yn hyderus yn trafod materion yn gysylltiedig â bod yn LGBT ac mewn sefyllfa i roi cyngor ac arweiniad pan fydd angen. Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae systemau ar waith i sicrhau bod disgyblion yn gallu dod o hyd i ffyrdd o siarad â staff am ofidiau, pryderon a chwestiynau, gan gynnwys rhai yn gysylltiedig â pherthnasoedd.

22 Mewn ychydig o'r ysgolion cynradd y gwnaethom ymweld â nhw, mae disgyblion yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n ceisio mynd i'r afael â stereoteipio o ran rhywedd o oedran cynnar. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn didoli hysbysebion teganau o gatalog yn ôl y rhai sy'n atgyfnerthu neu'n herio confensiynau ynglŷn â'r mathau o deganau y dylai bechgyn a merched chwarae â nhw. Mewn darpariaeth barhaus ac estynedig[1], mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd dysgu'n annibynnol nad ydynt yn atgyfnerthu stereoteipiau, ac mae disgyblion yn ymgymryd â pha bynnag weithgareddau y maent yn teimlo'n gyfforddus â nhw. Er enghraifft, yn yr ardal chwarae rôl, mae bechgyn a merched yn dewis yn rhwydd a ydynt am wisgo a chwarae fel nyrsys, gweithwyr adeiladu, heddweision, plymeriaid, mecanyddion a meddygon.

23 Mewn ysgolion sy'n dathlu amrywiaeth ac yn cefnogi cynhwysiant yn dda, mae disgyblion yn deall eu hawl i gael eu cynnwys a bod yn rhydd rhag gwahaniaethu, beth bynnag yw eu hunaniaeth o ran rhywedd neu'u cyfeiriadedd rhywiol, er enghraifft trwy waith ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn sicrhau ymagwedd gadarn at fynd i'r afael â bwlio, gan gynnwys yr achosion hynny sy'n gysylltiedig â materion LGBT. Mewn ychydig o ysgolion, mae disgyblion yn cydnabod ac yn codi pryderon ynglŷn â defnyddio iaith homoffobig pan fydd yn codi, er enghraifft trwy herio'r defnydd o'r gair 'gay'. Yma, mae disgyblion LGBT yn teimlo'n hyderus yn siarad â staff am faterion bwlio ac yn teimlo y bydd yr ysgol yn mynd i'r afael â'r rhain yn effeithiol.

[1] Mae cyhoeddiad Estyn, 'Dysgu Gweithredol a Thrwy Brofiad' (2017) yn darparu diffiniad defnyddiol o ddarpariaeth barhaus ac estynedig.

Yn **Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr,** gan weithio o dan arweiniad arweinydd cydraddoldeb yr ysgol, mae grŵp Digon wedi bod yn gweithio'n effeithiol ac yn greadigol yn yr ysgol a thu hwnt am naw mlynedd i gefnogi disgyblion a herio agweddau negyddol tuag at bobl LGBT. Sefydlodd yr ysgol y grŵp yn wreiddiol i herio'r defnydd o iaith homoffobig gan ddisgyblion, ac aeth ymlaen i ddatblygu strategaeth ymateb ar gyfer staff. Creodd y grŵp bolisi penodol a pharatôdd sesiwn ddatblygu i staff ar ddefnyddio'r strategaeth yn gyson.

Mae'r grŵp wedi hen ennill ei blwyf erbyn hyn, ac mae'n cyfarfod bob wythnos i ddarparu hafan ddiogel i ddisgyblion, a llwyfan i rannu syniadau. Mae disgyblion y grŵp ar gael i wrando ar eu cyfoedion a'u cyfeirio at gyngor buddiol pan fydd angen. Mae arddangosfeydd gan grŵp Digon yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ar draws yr ysgol, gan gynnwys defnyddio platiau coch a gwyrdd yn nerbynfa'r ysgol sy'n nodi beth sy'n gweithio'n dda a beth yn fwy y mae angen ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb a chyfle teg i bawb. Yn ystod 'Wythnos Enfys', mae disgyblion yn adeiladu wal yn llawn geirfa homoffobig. Uchafbwynt yr wythnos hon yw disgyblion yn dinistrio'r wal fel trosiad am fynd i'r afael â geirfa negyddol.

Mae'r grŵp yn cyflwyno sesiynau ABCh i weddill yr ysgol, mae'n cyflwyno gwasanaethau ar gydraddoldeb, ac yn cyfrannu at gynadleddau allanol. Mae aelodau yn cyflwyno hyfforddiant i athrawon a disgyblion o ysgolion eraill, gan gynnwys eu hysgolion cynradd clwstwr, ar gydraddoldeb LGBT. Mae'r ysgol yn cynnal cynhadledd flynyddol ar gydraddoldeb LGBT ac mae aelodau o grŵp Digon yn cymryd rôl flaenllaw yn trefnu hyn.

24 Fodd bynnag, mewn gormod o achosion ledled Cymru, mae ymchwil yn awgrymu bod disgyblion LGBT yn wynebu lefelau o fwlio a gwahaniaethu mewn ysgolion sy'n cael effaith negyddol ar eu profiad yn yr ysgol, gan arwain at bresenoldeb gwaelach a chynnydd academaidd arafach. Mae llawer o ddisgyblion LGBT yn dioddef teimladau o unigrwydd ac arwahanrwydd ac nid ydynt yn teimlo bod oedolyn yn eu darparwr y gallant siarad ag ef/â hi am faterion personol, ac am 'ddod allan' yn benodol. Mae graddau hyn yn amrywio rhwng sectorau. Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae gan ddisgyblion berthynas waith gadarnhaol â'u hathro dosbarth ac maent yn teimlo'n hyderus ac yn gyfforddus yn siarad am faterion personol, gan gynnwys materion yn gysylltiedig â theimladau am hunaniaeth o ran rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol, o bryd i'w gilydd.

25 Mewn llawer o ysgolion, nid yw disgyblion yn profi diwylliant yn yr ysgol sy'n hyrwyddo ac yn dathlu pob math o gynhwysiant ac amrywiaeth, gan gynnwys y rhai yn ymwneud â materion LGBT. Yn aml, bydd disgyblion yn gweld modelau rôl cadarnhaol o ran llawer o'r nodweddion gwarchodedig, fel hil, crefydd, rhyw neu anabledd, ond nid ydynt yn gweld modelau rôl LGBT sy'n ddigon cadarnhaol trwy'r cwricwlwm ac yn amgylchedd yr ysgol. O ganlyniad, nid yw llawer o ddisgyblion LGBT yn datblygu gwerthfawrogiad digonol fod pobl LGBT yn gallu bod mor llwyddiannus â phobl eraill. Yn rhy aml, pan gaiff disgyblion gyfleoedd i ymgymryd â

dysgu a thrafodaethau am faterion LGBT, mae'n rhan o wersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) penodol, ac ni chaiff ei integreiddio yn y cwricwlwm ehangach. Gallai hyn atgyfnerthu ymdeimlad fod pobl LGBT yn 'wahanol' ac yn 'fater arbennig' y mae angen ei drafod, yn hytrach na'i fod yn rhan o fywyd bob dydd.

**Ysgol Gynradd Lansdowne**

Yn dilyn hyfforddiant staff gan ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, dechreuodd yr ysgol fyfyrio ar faterion LGBT. Fe wnaethant sefydlu grŵp llais y disgybl, sef Digon, a chynnal arolwg i'r defnydd o iaith a bwlio homoffobig. Dangosodd hyn fod llawer o ddisgyblion wedi bod yn destun defnydd o iaith homoffobig, sydd yn aml wedi'i chyfeirio atyn nhw i'w sarhau.

Bu'r ysgol yn gweithio gyda grŵp Digon i wella dealltwriaeth disgyblion o effaith negyddol y defnydd o'r iaith hon trwy gyflwyniadau mewn gwasanaethau. Bu'r grŵp yn gweithio i greu 'ysgol ganlyniadau' yn gysylltiedig ag ymddygiad homoffobig, a daeth yn rhan o system cyfiawnder adferol yr ysgol. Mae hyn yn golygu eu bod yn gweithio gyda'r dioddefwr a'r cyflawnwr i ddatrys materion, a gwella dealltwriaeth ac ymddygiad yn y dyfodol.

Mae athro arweiniol y grŵp yn gweithio gyda'r disgyblion i gefnogi cyfoedion sy'n cwestiynu eu hunaniaeth neu sydd ag aelodau o'u teulu yn nodi eu bod yn LGBT. Mae'r grŵp yn gweithio i fynd i'r afael â stereoteipio yn yr ysgol trwy helpu ag adnoddau ar gyfer gwersi am wahaniaethau mewn strwythurau teuluol a thrwy gyflwyno gwasanaethau.

26 Yn aml, nid yw disgyblion LGBT yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i ymdopi â'r pwysau ychwanegol maen nhw'n eu hwynebu gan y gymdeithas ehangach, ac weithiau gan eu teuluoedd eu hunain, wrth dyfu i fyny fel rhywun LGBT. Yn aml, nid yw lefel y cymorth sydd ar gael i ddisgyblion mewn ardaloedd gwledig cystal â lefel y cymorth ar gyfer disgyblion LGBT mewn ardaloedd trefol. I raddau helaeth, mae hyn o ganlyniad i ddiffyg argaeledd sefydliadau allanol, fel gwasanaethau cynghori a chwnsela LGBT penodol, i gynorthwyo staff i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion.

27 O ganlyniad i'r ffactorau hyn a gwahaniaethu ac anoddefgarwch yn y gymdeithas ehangach, mae dysgwyr LGBT yn wynebu mwy o risg o iselder, ac maent yn fwy tebygol o hunan-niweidio neu brofi meddyliau hunanladdol. Mae profiad negyddol disgyblion trawsryweddol hyd yn oed yn fwy difrifol. Maent yn hynod debygol o brofi rhyw fath o fwlio yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol neu'r coleg, ac yn aml yn teimlo nad oes gan staff y medrau a'r ddealltwriaeth i allu cefnogi eu hanghenion.

## 2 Sicrhau bod profiadau dysgu yn dathlu amrywiaeth ac yn hyrwyddo cynhwysiant

28 Mae llawer o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â nhw yn ystyried yn ofalus sut gallant addasu profiadau dysgu disgyblion yn well i fynd i'r afael â materion LGBT a helpu sicrhau bod disgyblion LGBT yn cyflawni'r cynnydd, y safonau a'r lefelau lles y maent yn abl i'w cyflawni. Yn yr achosion gorau, mae ysgolion a cholegau yn addasu cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi presennol mewn ffordd sy'n briodol i ddatblygiad i ymgorffori materion LGBT a phortreadu pobl LGBT mewn bywyd bob dydd. Er enghraifft, mae staff yn sicrhau bod llenyddiaeth mewn ysgolion cynradd yn cwmpasu'r agweddau hyn, ac mae ysgolion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n dathlu amrywiaeth. Mewn ychydig o ysgolion, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddatblygu medrau meddwl a rhesymu disgyblion wrth archwilio materion cynhwysiant a gwahaniaethu, gan gynnwys y rhai yn gysylltiedig â phobl LGBT.

Roedd arweinwyr yn **Ysgol Gymraeg Casnewydd** eisiau gwella medrau llafaredd disgyblion, a threfnwyd hyfforddiant staff i addysgu athroniaeth syml i ddisgyblion. Mae'r sesiynau hyn yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl a siarad trwy drafod cwestiynau penagored. Mae disgyblion yn tyfu i ddeall bod mwy nag un ateb i gwestiwn yn aml. Mae staff yn annog dealltwriaeth disgyblion yn fedrus trwy amrywiaeth o weithgareddau sy'n herio disgyblion o'r dosbarth meithrin ymlaen i werthfawrogi a meddwl yn ofalus am safbwyntiau pobl eraill, hyd yn oed os nad ydynt yn cytuno â nhw.

Ar ôl mynychu gweithdy amrywiaeth a gynhaliwyd gan awdurdod lleol Casnewydd, nododd arweinwyr gyfle i ddefnyddio gwahaniaethau mewn ethnigrwydd, anabledd, a chyfeiriadedd rhywiol yn gyd-destun ar gyfer trafodaethau disgyblion mewn sesiynau athroniaeth. Maent yn defnyddio'r rhain i bwysleisio gweledigaeth yr ysgol mai 'bod yn wahanol yw'r unig beth sy'n gyffredin rhyngom ni'. Hefyd, maent yn dathlu amrywiaeth trwy wythnosau dathliadau cymunedol, lle mae disgyblion yn datblygu eu hempathi am bobl eraill. Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn hysbysu rhieni'n llawn am gynnwys y cwricwlwm a gyflwynir yn yr ysgol, a'r flaenoriaeth y maent yn ei rhoi i hyrwyddo cynhwysiant a herio stereoteipio.

29 Mae ysgolion llwyddiannus yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion trwy ddechrau â'r hyn maen nhw'n gyfarwydd ag ef. Er enghraifft, maent yn dechrau â phrofiad y disgyblion eu hunain o berthnasoedd gartref, fel cael un fam neu dad, cael eu magu gan neiniau a theidiau neu'r teuluoedd hynny sydd â dwy fam neu dau dad. Maent yn addysgu disgyblion am wahaniaethu yn erbyn pobl LGBT fel rhan o'u hymagwedd gyffredinol at fynd i'r afael â bwlio, ac yn ymgorffori hyn yn y cwricwlwm ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion mewn un ysgol yn dysgu am y ffordd y cafodd Alan

Turing ei drin, a phrofiadau'r chwaraewr rygbi, Gareth Thomas.  Pan fydd profiadau dysgu yn fwyaf effeithiol ar gyfer disgyblion LGBT, mae staff yn gwneud yn siŵr fod gan ddisgyblion LGBT lais mewn ffurfio'r ddarpariaeth.

30 Pan fydd ysgolion a cholegau yn mynd i'r afael â materion LGBT yn llwyddiannus fel rhan o'u cwricwlwm a'u darpariaeth ehangach, maent yn ffurfio rhan o ymagwedd ysgol gyfan y darparwr at ddathlu a hyrwyddo pob math o gynhwysiant, fel y rhai sy'n seiliedig ar ethnigrwydd, cred grefyddol ac anabledd.  Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn defnyddio cyfleoedd yn fedrus i hyrwyddo delweddau cadarnhaol o bobl LGBT fel maent yn codi, fel trafod cyfranogiad pobl drawsryweddol ar raglenni teledu poblogaidd.

Mewn un ysgol gynradd, mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu sy'n addysgu disgyblion am bwysigrwydd cynhwysiant a dathlu amrywiaeth o oedran ifanc.  Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn archwilio sut mae'n iawn i fod yn wahanol wrth greu pictogram i gynrychioli gwahanol liw gwallt.  Mae un disgybl yn awgrymu, 'Pe baem ni i gyd yr un fath, byddai'r byd yn ddiflas'.  Fel rhan o destun ar farchogion, mae disgybl yn ysgrifennu, 'Does dim ots os yw'r marchog yn ferch neu'n fachgen.  Gall unrhyw un fod yn unrhyw beth'.  Mewn sesiwn rhannu syniadau ar gyfer eu testun 'popeth amdanaf i', mae plentyn eisiau darganfod pam nad yw bechgyn yn gwisgo ffrogiau i'r ysgol.  Mewn dosbarth arall, mae disgyblion yn ail-ddweud hanes Rosa Parks ac yn ysgrifennu at gymeriad mewn llyfr y mae ei dad yn ei atal rhag chwarae â doliau, gan ei fod yn meddwl 'nad dyna beth mae bechgyn yn ei wneud'.  Maent yn archwilio rôl Menywod yn yr Ail Ryfel Byd fel rhan o nodi Dydd y Cofio.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgybl y mae ei fam mewn perthynas o'r un rhyw yn dathlu unigrywiaeth hunaniaeth eu teulu wrth ysgrifennu amdanyn nhw eu hunain.  Mae disgyblion yn dathlu Mis Hanes Pobl Dduon trwy edrych ar ddyfodiad mudwyr Affro-Garibïaidd ar HMT Empire Windrush.  Mae disgyblion hŷn yn archwilio modelau rôl cadarnhaol sy'n fenywod wrth ddilyn taith grŵp o ddiffoddwyr tân sy'n fenywod yn eu taith ar draws yr Antarctig.  Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gweld portread o wahanol ffurfiau o berthnasoedd a heriau i stereoteipio o ran rhywedd yn rheolaidd trwy destunau ffuglen a ffeithiol sy'n briodol i ddatblygiad.

31 Fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd ysgolion wedi dechrau cydnabod pwysigrwydd datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o faterion LGBT, mae addasiadau i'r cwricwlwm yn tueddu i gael eu cyfyngu i wersi ABCh yn hytrach na chael eu haddysgu ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Nid yw hyn yn fuddiol wrth annog disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth fod pobl LGBT yn bodoli ym mhob math o deuluoedd ac o fewn pob rôl mewn cymdeithas. Gall achosi i ddisgyblion ddirnad pobl LGBT fel 'mater' yn hytrach na'u bod yn rhan o'u cymuned bob dydd a'r byd ehangach. Yn ychwanegol, gall gyfyngu ar y cyfleoedd i bob un o'r staff ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion LGBT, a'u hyder yn siarad amdanynt.

32 Mewn gormod o ysgolion ledled Cymru, nid yw athrawon yn ystyried anghenion penodol disgyblion LGBT a phortread cadarnhaol o fodelau rôl LGBT yn ddigon da wrth ystyried ehangder profiadau dysgu disgyblion dros gyfnod. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion yn colli cyfleoedd i archwilio materion LGBT mewn ffordd naturiol a phriodol i ddatblygiad trwy'r cwricwlwm ehangach. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion yn dysgu yn yr ysgol am faterion LGBT sydd eisoes yn dod i'r amlwg trwy'r cyfryngau, ac yn y gymdeithas ehangach yn gyffredinol. I ddisgyblion sy'n LGBT neu'n cwestiynu eu cyfeiriadedd rhywiol neu'u hunaniaeth o ran rhywedd, gall hyn arwain at lawer o'r effeithiau negyddol a amlinellir ym mhennod un.

33 Yn benodol, ychydig iawn o ysgolion cynradd yn unig sydd wedi dechrau ystyried pa mor dda y maent yn portreadu perthnasoedd o'r un rhyw a gwahanol fathau o deuluoedd fel rhan o'r cwricwlwm ehangach. Pan fyddant yn gwneud hyn yn llwyddiannus, mae disgyblion yn gweld portreadau o berthnasoedd cariadus rhwng pobl o'r un rhyw ar lefel sy'n briodol i ddatblygiad o gyfnod cynnar sy'n adlewyrchu'r hyn y maent yn ei weld yn y gymdeithas a thrwy'r cyfryngau.

Yn **Ysgol Gynradd Lansdowne**, mae arweinwyr ac athrawon yn ymwybodol o'r angen i fynd i'r afael â materion LGBT a stereoteipio o ran rhywedd gyda disgyblion. Mae eu hymagwedd yn estyn y tu hwnt i raglen ABCh yr ysgol, ac yn integreiddio yn y cwricwlwm ehangach i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o strwythurau teuluol y tu hwnt i'r teulu cnewyllol traddodiadol.

Mae athrawon yn cynllunio'r profiadau dysgu ar gyfer pob grŵp blwyddyn o amgylch llyfr stori. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu ar gynllun ABCh yr awdurdod lleol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am natur amrywiol cymdeithas.

Ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn astudio'r llyfr 'And Tango Makes Three'. Maent yn archwilio cyfansoddiad teuluoedd wrth i'r ddau brif gymeriad gwrywaidd, sy'n bengwiniaid, fabwysiadu ŵy sy'n deor i ffurfio teulu o dri. Mae hyn yn galluogi oedolion a disgyblion i archwilio eu teuluoedd eu hunain mewn ffordd ofalgar a sensitif. Mae disgyblion yn siarad am gael mam a mami neu lystadau yn eu cartrefi, ac yn archwilio strwythurau teuluol eraill ymhellach.

Ym Mlwyddyn 3, caiff disgyblion eu hannog i archwilio eu syniadau eu hunain am yr hyn y mae merched, bechgyn neu'r naill a'r llall, yn gallu gwneud. Maent yn siarad am yr enghreifftiau ac mae holi gofalus gan athrawon yn helpu herio eu syniadau blaenorol. Mae disgyblion yn mynd ymlaen i ddarllen 'Bill's New Frock' gan Anne Fine, ac yn trafod sut mae pobl yn ei drin yn wahanol fel merch. Maent yn siarad am gydraddoldeb a'r modd y gall bechgyn a merched wneud yr un pethau.

Ym Mlwyddyn 6, mae disgyblion yn dysgu am faterion LGBT go iawn. Trwy eu testun ar yr Ail Ryfel Byd, mae disgyblion yn darganfod rôl bwysig Alan Turing yn datrys Cod Enigma, gan fyrhau'r rhyfel ac achub bywydau. Maent yn darganfod effaith homoffobia wrth ddod i wybod am ei erledigaeth yn ddiweddarach yn ei fywyd, a'r ffaith iddo gael ei garcharu am fod yn gyfunrhywiol. Mae dysgu ei fod wedi cael pardwn ar ôl ei farwolaeth yn 2013 yn helpu disgyblion i ddeall sut mae agweddau at bobl LGBT wedi newid yn ddiweddar.

## 3 Cymorth ar gyfer dysgwyr LGBT

34 Yn gynyddol, mae ysgolion a cholegau effeithiol yn cydnabod bod angen gwella eu cymorth ar gyfer disgyblion LGBT a'r rhai sy'n cwestiynu eu cyfeiriadedd rhywiol neu'u hunaniaeth o ran rhywedd. Mae'r ysgolion hyn yn deall bod anghenion disgyblion LGBT yn aml yn hynod benodol i'r unigolyn. Mae staff yn gwybod ei bod yn bwysig peidio â gwneud rhagdybiaethau am yr hyn sydd ei eisiau a'i angen ar ddisgyblion LGBT, ac yn gweithio'n agos gyda nhw i addasu darpariaeth, a darparu cymorth.

35 Nid yw bod yn LGBT ynddo'i hun yn golygu bod angen cymorth ychwanegol. Fodd bynnag, mae disgyblion LGBT yn aml yn profi heriau ychwanegol o gymharu â'u cyfoedion o ganlyniad i agweddau negyddol a rhagfarn yn y gymdeithas ehangach. Fel y dangosir ym mhennod un, gall hyn arwain at ymdeimlad gwaelach o les, y gall ysgolion a cholegau helpu eu lliniaru trwy systemau effeithiol sy'n galluogi disgyblion i fanteisio ar gymorth ychwanegol pan fydd ei angen arnynt.

36 Yn yr achosion gorau, mae ysgolion uwchradd a cholegau yn cyflogi staff bugeiliol sydd ag arbenigedd neu brofiad mewn cynorthwyo disgyblion LGBT. Maent yn rhoi systemau clir ar waith sy'n sicrhau bod disgyblion yn gwybod sut i fynd ati i siarad ag aelod o staff am faterion personol, gan gynnwys materion yn ymwneud â bod yn LGBT. Bron ym mhob ysgol gynradd, mae disgyblion yn datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol â'u hathro dosbarth neu aelod arall o staff sy'n galluogi iddynt godi materion personol, a'u trafod, fel y maent yn codi. Mae llawer o ysgolion yn defnyddio systemau, fel 'blychau gofidiau', sy'n galluogi disgyblion i ofyn am gymorth yn gyfrinachol. Mae ychydig iawn o ysgolion cynradd yn gweithredu cyfleuster galw i mewn i ddisgyblion siarad ag aelod o staff sydd wedi cael ei hyfforddi'n benodol mewn cefnogi anghenion emosiynol a lles disgyblion.

37 Mewn llawer o'r ysgolion a'r colegau y gwnaethom ymweld â nhw, mae arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pob un o'r staff yn meddu ar raddau addas o wybodaeth, dealltwriaeth a hyder i allu siarad â dysgwyr am faterion yn ymwneud â dod allan neu fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig pan fyddant yn codi. Mae'r wybodaeth hon a'r hyder hwn ymhlith staff yn helpu creu ethos o gynhwysiant mewn ysgolion a cholegau sy'n galluogi dysgwyr LGBT i deimlo'n gyfforddus i fynegi eu hunaniaeth unigol. Mae'r ysgolion a'r colegau hyn yn defnyddio cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau allanol er mwyn gallu rhoi cymorth penodol i ddysgwyr LGBT. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni hyfforddiant, gwasanaethau cwnsela a chymorth, a datblygu systemau sy'n caniatáu mynediad cyfrinachol at wybodaeth ddibynadwy a chywir i gynorthwyo dysgwyr i wneud dewisiadau diogel.

38 Mae llawer o'r ysgolion uwchradd a'r colegau y gwnaethom ymweld â nhw yn defnyddio asiantaethau allanol yn dda i hwyluso grwpiau dysgwyr LGBT sy'n cyflawni nifer o rolau. Mae'r grwpiau hyn yn darparu cymorth i gyfoedion ar gyfer dysgwyr eraill, yn datblygu mentrau i hyrwyddo a dathlu hawliau LGBT, ac, yn yr achosion gorau, yn rhoi adborth i staff ar gynnwys materion LGBT yn y cwricwlwm. Pan fydd

ysgolion a cholegau yn gallu manteisio ar y gwasanaethau hyn, maent yn aml yn effeithiol o ran gwella cymorth ar gyfer dysgwyr LGBT.  Fodd bynnag, mae gwasanaethau cymorth allanol ar gyfer dysgwyr LGBT yn fwy cynhwysfawr mewn ardaloedd trefol nag ardaloedd gwledig.

Mae **Ysgol Lewis Pengam** yn awdurdod lleol Caerffili wedi gweithio'n agos gydag asiantaethau fel Umbrella Cymru i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion LGBT.  Mae rhai o nodweddion allweddol ei strategaeth gymorth yn cynnwys:

- Rhaglen hyfforddi ar gyfer pob un o'r staff sy'n cael ei gweithredu mewn partneriaeth ag Umbrella Cymru i sicrhau bod pob un o'r staff yn deall cysyniadau allweddol ynglŷn â rhywedd, hunaniaeth a chyfeiriadedd rhywiol.
- Llunio siarter ysgol gyfan wedi'i chreu gan ddisgyblion, staff a llywodraethwyr sy'n amlinellu safbwynt yr ysgol ar faterion LGBT, polisi ac arferion yr ysgol, yn ogystal â darparu diffiniadau o dermau allweddol.
- Amlygu materion LGBT trwy ddefnydd strategol o gyfryngau creadigol.  Er enghraifft, mae'r ysgol wedi gweithio gyda thîm Iris Outreach i greu ffilm fer sy'n amlygu themâu LGBT.
- Creu grŵp LGBT, sef 'Pride of Pengam', sy'n cyfarfod bob wythnos ac yn darparu gofod diogel ac anogol lle gall disgyblion gael gwybodaeth a chymorth.  Mae'r grŵp yn cynnwys disgyblion sy'n nodi eu bod yn LGBT, yn ogystal â disgyblion sy'n cefnogi cydraddoldeb LGBT.  Mae mynychwyr hefyd yn cynllunio digwyddiadau, gan gynnwys cystadlaethau, boreau coffi, dathlu mis hanes LGBT a digwyddiad blynyddol Pride.
- Digwyddiad blynyddol Pride, sy'n cynnwys yr ysgol gyfan yn cymryd rhan mewn dathliad o hunaniaeth LGBT.  Mae partneriaid allweddol o'r gymuned, fel gwasanaethau ieuenctid a'r heddlu, yn mynychu ac yn rhoi arweiniad i ddisgyblion, ac yn amlygu'r cymorth sydd ar gael yn y gymuned leol.  Mae digwyddiadau'n cynnwys gwasanaeth â siaradwyr gwadd a pherfformwyr, yn ogystal â gweithgareddau fel digwyddiadau chwaraeon, ffilmiau, crefftau, cerddoriaeth a dawns.

39 Mewn ysgolion a cholegau effeithiol, mae staff yn deall nad yw'r ffaith fod disgyblion yn LGBT yn golygu risg diogelu, ond maent yn gwerthfawrogi bod angen sicrhau bod dysgwyr yn deall sut i aros yn ddiogel wrth geisio arweiniad a chymorth ar-lein. Mae staff yn ffurfio perthnasoedd ymddiriedus â phobl ifanc i sicrhau eu bod yn gyfforddus i droi at aelodau staff yn hyderus. Maent yn cynorthwyo dysgwyr yn effeithiol i ddelio â materion penodol o ran bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig ar-lein. Yn yr achosion gorau, mae ysgolion a cholegau yn gweithio i atal bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig ar-lein fel rhan o'u hymagwedd ehangach at fynd i'r afael â materion yn ymwneud â bwlio trwy'r cwricwlwm.

40 Mae ysgolion effeithiol yn cyfleu'n glir i rieni a'r gymuned ehangach eu hymagwedd at gynhwysiant ac anoddefgarwch o wahaniaethu, er enghraifft trwy siarad ag arweinwyr ffydd lleol am bolisi'r ysgol tuag at hyrwyddo cynhwysiant. Mae ychydig o ysgolion yn dathlu amrywiaeth yn weithredol trwy ddigwyddiadau blynyddol rheolaidd sy'n helpu hyrwyddo neges gynhwysol trwy'r ysgol a'i chymuned leol. Mae llawer o golegau ac ychydig iawn o ysgolion uwchradd yn hyrwyddo ac yn mynychu digwyddiadau Pride sy'n dathlu amrywiaeth ac yn amlygu pwysigrwydd cynhwysiant.

41 Caiff llawer o ysgolion eu cefnogi'n dda wrth iddynt ddatblygu grwpiau ar gyfer disgyblion LGBT gan wasanaethau ieuenctid, a gyflwynir gan yr awdurdod lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol, neu mewn partneriaeth. Mae'r cymorth hwn yn digwydd trwy weithwyr ieuenctid yn trefnu a rheoli grwpiau ar gyfer disgyblion yn ystod y diwrnod ysgol, ac yn syth ar ôl i'r ysgol orffen, yn ogystal â darparu gwaith grŵp mewn lleoliadau cymunedol yn ystod amser hamdden pobl ifanc. Mae llawer o'r grwpiau hyn hefyd yn croesawu 'cynghreiriaid', sef pobl ifanc sydd eisiau ymuno er mwyn rhoi cymorth gwell i'w ffrindiau sy'n LGBT.

42 Hefyd, mae gweithwyr ieuenctid yn darparu cyngor a chymorth i ddisgyblion sydd angen hyn. Maent yn cyfrannu at wersi ABCh ar gyfer disgyblion, ac yn darparu sesiynau hyfforddi a datblygiad mewnol ar gyfer athrawon. Mewn un ysgol, mae disgyblion sy'n mynychu grŵp cymorth LGBT yn teimlo'n fwy hyderus wrth drafod eu materion gyda gweithwyr ieuenctid na'u hathrawon, gan fod yn well ganddynt ffordd y gweithwyr ieuenctid o weithio, yn eu gweld yn bobl haws mynd atynt ac yn deall eu hanghenion yn well.

43 Mae ychydig o wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol wedi nodi bod cysylltiad clir rhwng statws LGBT a digartrefedd ymhlith pobl ifanc hŷn. Mae eu gwaith yn awgrymu bod hyn o ganlyniad i bwysau ar iechyd meddwl dysgwyr LGBT a thensiynau o fewn eu teuluoedd wrth iddyn nhw ddechrau mynegi eu rhywedd a'u hunaniaeth rywiol.

Mae **Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn** wedi sefydlu grwpiau LGBT mewn tair o'u pum ysgol uwchradd, ac maent wrthi'n sefydlu grwpiau yn y ddwy ysgol arall. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gyda Digartref Ynys Môn hefyd i ddatblygu darpariaeth ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 mlwydd oed, a datblygu grwpiau cymorth i rieni hefyd.

Datblygwyd darpariaeth ar ôl ymgynghori â phobl ifanc gan adran addysg ac ieuenctid yr awdurdod lleol, ynglŷn â'r math o gymorth a darpariaeth yr hoffent eu gweld ar waith. Nododd pobl ifanc fod cymorth ar gyfer disgyblion LGBT yn angen allweddol. Mae ymchwil leol bellach wedi dangos bod materion LGBT heb eu datrys yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc ar yr ynys. Er enghraifft, mae perthynas pobl ifanc ag aelodau eraill o'u teulu yn chwalu yn sgil 'dod allan', sy'n achosi iddynt fod yn ddigartref.

Mewn un ysgol, mae gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn cynnal grŵp LGBT yn ystod amser cinio dydd Iau yn yr ysgol. Mae rhwng 5 ac 15 o ddisgyblion yn mynychu'r grŵp ar hyn o bryd, sy'n cynnwys pobl ifanc sy'n LGBT, a'u ffrindiau hefyd. Sefydlwyd y grŵp o ganlyniad i ddisgyblion Blwyddyn 12 yn ei ddatblygu'n brosiect ar gyfer eu cwrs Bagloriaeth Cymru. O ganlyniad i'r safbwynt cadarnhaol a gymerodd yr ysgol, mae wedi dechrau denu mwy o ddisgyblion sy'n nodi eu bod yn LGBT, gan eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

44 Mewn ysgolion a cholegau sy'n sensitif i anghenion dysgwyr trawsryweddol, mae staff yn cysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr i fynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu, ac yn addasu darpariaeth yn ôl yr angen. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae staff yn tawelu meddyliau rhieni disgyblion trawsryweddol y byddant yn gweithredu i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn eu plant, ac na fyddant yn goddef bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig. Fodd bynnag, cyfran fach o ysgolion yn unig sy'n gwbl effeithiol yn mynd i'r afael â'r mater hwn, ac mewn gormod o achosion, mae bwlio disgyblion trawsryweddol yn cael effaith negyddol ar eu profiad yn yr ysgol.

Mewn un ysgol gynradd, yn ystod Blwyddyn 5, nododd disgybl fod ei rywedd yn wahanol i'r hyn ydoedd adeg ei eni. Fe wnaeth y disgybl ymddiried mewn staff yn yr ysgol ac roedd yn teimlo ei fod yn gallu trafod newid ei rywedd â nhw. Yn benodol, fe wnaeth darparu cyfleuster lles galw i mewn alluogi'r disgybl i drafod ei deimladau ag aelod penodol o staff a fu'n gweithredu fel unigolyn cyswllt cyntaf yn ystod cyfnod newid rhywedd y disgybl. Bu'r ysgol yn gweithio'n sensitif â'r disgybl a'i rieni i'w cynorthwyo. Hefyd, bu'r ysgol yn gweithio'n sensitif gyda gweddill dosbarth y disgybl i sicrhau eu bod yn ymateb yn briodol i'r disgybl yn newid rhywedd. Cysylltodd yr ysgol ag asiantaethau allanol perthnasol i'w cynghori a rhoi arweiniad iddynt wrth ymdrin â'r achos.

45 Mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd a cholegau, mae arweinwyr yn ystyried sut mae nodweddion a chyfleusterau yn benodol i rywedd, fel toiledau, ystafelloedd newid a gofynion gwisg ysgol, yn effeithio ar fywydau dysgwyr trawsryweddol. Yn yr achosion gorau, nid yw arweinwyr yn gwneud rhagdybiaethau am eu hanghenion, ond yn gweithio gyda nhw'n sensitif i addasu darpariaeth a sicrhau eu bod yn gallu

manteisio ar y cyfleusterau mwyaf priodol o ystyried eu hanghenion a natur adeilad yr ysgol neu'r coleg. Mae arweinwyr effeithiol yn cydnabod nad oes yna unrhyw atebion cyffredin na syml i'r heriau hyn, a bod angen deialog â phawb dan sylw. Yn y gwaith hwn, mae ysgolion effeithiol yn ystyried eu dyletswyddau cyfreithiol o ran gofodau ar wahân a gofodau'r un rhyw, fel yr amlinellir yn adran 'cefndir' yr adroddiad hwn.

46 Yn aml, mae ysgolion a cholegau wedi eu cyfyngu o ran y newidiadau ffisegol y gallant eu gwneud i gyfleusterau oherwydd cyfyngiadau'r adeilad a'r cyllidebau sydd ar gael. Yn yr achosion gorau, pan fyddant yn gwneud newidiadau i'w cyfleusterau neu'n cynllunio adeilad newydd, maent yn ymgynghori â'r holl ddysgwyr, gan gynnwys unrhyw grwpiau LGBT i ystyried eu barn. Fodd bynnag, yn rhy aml wrth ystyried codi adeiladau newydd, nid yw ysgolion a cholegau yn ystyried darpariaeth ar gyfer dysgwyr trawsryweddol yn ddigon da.

47 Pan fydd y sefyllfa'n codi, mae ysgolion a cholegau yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i gynorthwyo dysgwyr sy'n dymuno newid eu rhyw trwy roi amser i ffwrdd iddynt a'u galluogi i ddal i fyny ag unrhyw waith maen nhw wedi'i golli. Mae'r ysgolion a'r colegau mwyaf effeithiol yn ymateb yn hyblyg i anghenion y dysgwyr, ac yn deall bod y daith i newid rhyw yn unigryw i bob person ifanc unigol. Yn yr achosion hyn, maent yn gweithio'n dda gyda disgyblion, dysgwyr a'u rhieni i gynllunio'r broses newid rhyw. Maent yn cyfleu hyn i aelodau eraill o gymuned yr ysgol neu'r coleg yn sensitif. Mae hyn yn hwyluso'r daith i newid rhyw ac yn lleihau achosion o fwlio trawsffobig.

48 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion a cholegau sydd â disgyblion trawsryweddol yn gweithio'n agos gyda nhw i sicrhau bod staff a dysgwyr yn cael eu cynghori i pbarchu'r enw a'r rhagenwau y maent wedi eu dewis iddyn nhw eu hunain, lle bo'n briodol. Yn yr achosion gorau, mae ysgolion a cholegau yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau eu bod yn defnyddio'r enwau maen nhw'n eu ffafrio ar systemau gwybodaeth reoli, gwobrau a thystysgrifau. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae darparwyr yn wynebu heriau sy'n deillio o anhyblygrwydd systemau electronig i gofnodi neu addasu rhywedd disgyblion. Yn aml, mae ysgolion a cholegau yn amharod i newid rhywedd disgyblion neu ddysgwyr gan eu bod yn ofni goblygiadau cyfreithiol.

49 Mae llawer o ysgolion a cholegau sydd â dysgwyr trawsryweddol yn cydnabod y gallent fod eisiau addasu'r ffordd y maent yn gwisgo i adlewyrchu eu hunaniaeth o ran rhywedd, ac mae ychydig o ysgolion yn awr yn sicrhau bod yr holl eitemau gwisg cymeradwy ar gael i'r holl bobl ifanc, ni waeth pa rywedd y maent yn cysylltu agosaf ag ef. Mae canllawiau statudol diweddar Llywodraeth Cymru yn darparu cyfarwyddiadau clir ar gyfer cyrff llywodraethol ar gynnwys eu polisi gwisg ysgol.

Yn ei dogfen 'Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion', mae **Llywodraeth Cymru** (2019d) yn amlinellu ei disgwyliadau ar gynnwys polisïau gwisg ysgol:

'Bydd corff llywodraethu yn nodi'r hyn sy'n rhan o'i wisg ysgol ac yn sicrhau bod ganddo bolisi gwisg ysgol cynhwysol nad yw'n gwahaniaethu ar sail rhyw na hunaniaeth o ran rhywedd. Gall polisi gwisg ysgol sy'n niwtral o ran rhywedd restru eitemau o ddillad y caniateir iddynt gael eu gwisgo yn yr ysgol, heb nodi unrhyw ofynion o ran yr angen i eitemau o ddillad gael eu gwisgo gan fyfyrwyr o rywedd penodol yn unig' (Llywodraeth Cymru, 2019d, tud.8).

'Mae angen i ysgolion ystyried a oes angen hyblygrwydd mewn perthynas â gwisg ysgol er mwyn diwallu anghenion disgybl sy'n mynd drwy broses ailbennu rhywedd ar hyn o bryd. Gall gwrthod caniatáu i ddisgybl wisgo gwisg ysgol sy'n adlewyrchu ei hunaniaeth o ran rhywedd fod yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010)' (Llywodraeth Cymru, 2019d, tud.8).

50 Mae llawer o ysgolion a cholegau yn caniatáu i ddysgwyr trawsryweddol gymryd rhan mewn chwaraeon tîm gyda'r rhywedd y maent yn adnabod eu hunain wrtho, oni bai fod pryderon penodol ynghylch diogelwch sy'n atal hyn rhag digwydd. [1] Ar deithiau preswyl, mae ysgolion a cholegau yn gweithio'n sensitif gyda phawb dan sylw i ystyried trefniadau cysgu. O ran teithiau tramor, mae staff yn ystyried yn ofalus oblygiadau posibl dogfennau swyddogol fel pasbortau, nad ydynt yn cyd-fynd â'r rhywedd y mae'r disgybl neu'r disgybl yn adnabod ei hun wrtho, a'r amddiffyniad cyfreithiol sydd ar gael yn y gyrchwlad i ddysgwyr sy'n lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n drawsryweddol.

51 Yn yr achosion gorau, mae ysgolion cynradd ac uwchradd yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n llwyddiannus o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yma, mae cyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd ac ymgynghori parhaus â disgyblion a rhieni yn hanfodol i osgoi unrhyw effaith negyddol ar les disgyblion. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, mae symud i addysg uwchradd i ddisgyblion trawsryweddol yn cael effaith negyddol ar eu lles o ganlyniad i gymorth annigonol ar gyfer y broses.

[1] Dyma oedd ein canfyddiad yn 2020 ac efallai nad yw'n cynrychioli arfer bresennol. Argymhellir y dylai ysgolion ystyried unrhyw ganllawiau gan gorff llywodraethol cenedlaethol chwaraeon wrth benderfynu sut i gynnal chwaraeon mewn ysgolion a cholegau yn ddiogel.

# 4 Effaith arweinyddiaeth

52 Mae gan arweinwyr ysgolion a cholegau rôl allweddol mewn sefydlu diwylliant o gynhwysiant i sicrhau bod dysgwyr LGBT yn ffynnu ac yn cyflawni ar y lefel y maent yn abl i wneud hynny. Pan fydd hyn yn fwyaf effeithiol, mae diben moesol cryf yn gyrru arweinwyr a staff i sicrhau cynhwysiant a dathlu amrywiaeth yn eu sefydliad. Mewn ysgolion, mae llywodraethwyr yn cynorthwyo arweinwyr i sefydlu a chynnal ethos cynhwysol a'u cefnogi i fynd i'r afael â'r heriau pan fyddant yn codi.

53 Mewn llawer o'r ysgolion a'r colegau y gwnaethom ymweld â nhw, mae arweinwyr yn creu amgylcheddau sy'n dathlu unigoliaeth, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar les yr holl ddysgwyr. Trwy gyfathrebu effeithiol a thryloyw, maent yn sicrhau bod rhieni a'r gymuned ehangach yn cydnabod y pwysigrwydd y mae'r darparwr yn ei roi i gynhwysiant. Er enghraifft, mae ysgolion yn cynnal digwyddiadau arbennig i esbonio eu hymagwedd at gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb, gan gynnwys y modd y maent yn archwilio materion yn ymwneud â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd. Mae ysgolion sy'n darparu'n dda ar gyfer disgyblion o gefndiroedd ethnig a chrefyddol amrywiol yn cydnabod bod angen ymgysylltu ag arweinwyr ffydd lleol, ac yn trefnu ymweliadau â mosgiau ac eglwysi lleol i amlinellu ac esbonio eu hymagwedd.

54 Yn yr ysgolion cynradd y gwnaethom ymweld â nhw, mae arweinwyr a llywodraethwyr yn sefydlu diwylliant lle mae staff yn deall pwysigrwydd portreadu a thrafod gwahanol fathau o deuluoedd a pherthnasoedd mewn ffordd naturiol sy'n briodol i ddatblygiad. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn sicrhau nad yw disgyblion yn datblygu stereoteipiau diwyro o berthnasoedd, hunaniaeth o ran rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol o oedran ifanc. Ar draws pob sector, mae arweinwyr sy'n blaenoriaethu pwysigrwydd cydraddoldeb yn herio staff i ddefnyddio iaith gyda dysgwyr nad yw'n atgyfnerthu stereoteipiau, a bod yn ystyriol o'r iaith honno wrth gynllunio gweithgareddau a datblygu'r amgylchedd dysgu.

55 Mewn ysgolion a cholegau sy'n llwyddo i greu diwylliant cadarnhaol o amgylch materion LGBT, mae arweinwyr yn gyflogwyr cynhwysol, gan sicrhau triniaeth a chyfle cyfartal ar gyfer staff LGBT. Maent yn cymhwyso'r un arweiniad o amgylch trafod perthnasoedd personol â staff LGBT â phobl eraill. Yn yr achosion hyn, gall staff LGBT weithredu fel modelau rôl cadarnhaol ar gyfer dysgwyr, ond mae arweinwyr yn sicrhau hefyd nad yw staff LGBT yn teimlo dan bwysau i siarad am eu bywydau personol yn fwy nag unrhyw gyflogai arall. Mae arweinwyr llwyddiannus yn cydnabod bod creu ethos cadarnhaol o amgylch materion LGBT yr un mor bwysig ar gyfer staff â dysgwyr.

Mae cyfran y disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol wedi cynyddu yn **Ysgol Gynradd Eveswell** yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill wedi sefydlu ethos ar gyfer yr ysgol sy'n dathlu amrywiaeth ac yn herio stereoteipiau. Maent yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n seiliedig ar bawb yn cael ymdeimlad o berthyn, beth bynnag fo'u cefndiroedd a'u cyd-destun unigol. Maent yn sicrhau bod derbyn cyfeiriadedd rhywiol, rhyw neu ailbennu rhywedd unigolyn yn cael ei addysgu yn yr un ffordd â nodweddion gwarchodedig eraill, fel hil, anabledd a chred grefyddol.

Tua deng mlynedd yn ôl, nododd yr ysgol fod angen addasu ei darpariaeth i fynd i'r afael â stereoteipio a hyrwyddo cydraddoldeb. Trefnodd arweinwyr i Stonewall Cymru gyflwyno hyfforddiant ar gyfer pob un o'r staff ar ddathlu amrywiaeth a herio stereoteipiau o ran rhywedd. Sbardunodd yr hyfforddiant hwn yr ysgol i wneud newidiadau i'w chwricwlwm a'i systemau, sydd wedi arwain at ddatblygu cymuned ddysgu hynod gynhwysol. Mae camau gweithredu'n cynnwys:

- Archwilio adnoddau i gael gwared ar y rhai sy'n portreadu stereoteipiau o ran rhywedd, hil a chrefydd
- Sicrhau bod testunau sy'n portreadu gwahanol fathau o berthnasoedd cariadus a theuluoedd ar gael i ddisgyblion, ac yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cwricwlwm ar lefel sy'n briodol i ddatblygiad
- Datblygu cwricwlwm sy'n cynnwys llawer o gyfleoedd i addysgu am bwysigrwydd herio stereoteipiau a hyrwyddo modelau rôl cadarnhaol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig
- Darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion godi materion a chwestiynau ynghylch materion personol, er enghraifft trwy ddefnyddio blychau gofidiau dosbarth a sesiynau amser cylch rheolaidd
- Adolygu polisïau perthnasol yr ysgol i sicrhau eu bod yn cynnwys cyfeiriad at hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio stereoteipiau
- Adolygu strwythur arweinyddiaeth yr ysgol i greu arweinydd lles a grŵp lles penodol
- Sicrhau bod pwysigrwydd hyrwyddo pob math o gydraddoldeb yn cael ei amlygu yn ystod prosesau ymsefydlu ar gyfer staff newydd
- Sicrhau eglurder â rhieni ynglŷn ag ymagwedd yr ysgol at hyrwyddo cydraddoldeb trwy gylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol a thrwy anfon trosolygon tymhorol gartref o'r testunau yr ymdrinnir â nhw yn y dosbarth
- Ymgysylltu'n gadarnhaol â'r gymuned leol ac arweinwyr crefyddol, er enghraifft trwy ymweliadau â'r mosg lleol a thrafodaethau ag imam y gymuned
- Gweithio gyda disgyblion i greu polisi a gweithdrefnau effeithiol ar wrthfwlio sy'n cyfeirio'n benodol at nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys mynd i'r afael â bwlio homoffobig
- Adolygiadau rheolaidd o effaith gwaith yr ysgol wrth fynd i'r afael â

56 Mewn colegau effeithiol, mae arweinwyr yn gweithio gyda dysgwyr i adolygu a gwella'r ddarpariaeth, er enghraifft trwy gynnal archwiliad a sefydlu grŵp cydraddoldeb dysgwyr sy'n cymryd cyfrifoldeb am y cynllun cydraddoldeb strategol. Mewn ychydig o achosion, mae colegau'n ariannu swyddi sabothol i ddysgwyr weithredu fel swyddogion sydd â chyfrifoldeb penodol am faterion LGBT.

Mae **Coleg Caerdydd a'r Fro** wedi gweithredu i wella ymglymiad dysgwyr ar draws y coleg. Bu'n canolbwyntio ar weithio gyda dysgwyr ar bob lefel ac o'r holl nodweddion gwarchodedig i gasglu eu safbwyntiau ar agweddau ar brofiad y dysgwr. Mae'r coleg wedi sefydlu cydlynydd llais y dysgwr a chynwysoldeb amser llawn, yn ogystal â nifer o Swyddi Swyddog Sabothol a ariennir ar gyfer dysgwyr, sy'n cynnwys Swyddogion Rhyddhad i gefnogi a hyrwyddo achos dysgwyr LGBT a dysgwyr du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol (BAME).

57 Mae llawer o ysgolion uwchradd wedi sefydlu grwpiau llais y disgybl LGBT. Mewn ychydig o ysgolion, mae'r grwpiau hyn wedi hen ennill eu plwyf ac mae ganddynt rôl allweddol mewn gwella'r ysgol, fel datblygu polisi i fynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig neu gynorthwyo staff i ddiwygio'r ffordd y cyflwynir y cwricwlwm ABCh. Mae gan ychydig iawn o ysgolion cynradd grwpiau cydraddoldeb disgyblion sy'n gweithio gyda staff i ystyried materion fel pa mor dda y mae cwricwlwm yr ysgol yn mynd i'r afael â stereoteipio o ran rhywedd.

Ar ôl dadansoddi deilliannau adroddiad y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion a'r canfyddiadau o'r arolwg 'ymagwedd ysgol gyfan' at iechyd meddwl, daeth arweinwyr yn **Ysgol Uwchradd Basaleg** i'r casgliad fod angen iddynt wneud mwy i wella darpariaeth addysg cydberthynas a rhywioldeb a chefnogi eu disgyblion LGBT. Buont yn gweithio gyda disgyblion i greu 'rhaglen les wedi'i hysgogi gan diwtoriaid' sy'n cwmpasu testunau nad oeddent eisoes yn cael eu hymgorffori yn y cwricwlwm, fel iechyd meddwl, addysg cydberthynas a rhywioldeb a meithrin gwydnwch. Defnyddiodd yr ysgol lais y disgybl ymhellach i helpu cynllunio'r rhaglen addysg cydberthynas a rhywioldeb ar draws meysydd y cwricwlwm. Wedyn, bu'r ysgol yn gweithio gydag ysgolion cynradd sy'n ei bwydo i sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd ym Mlwyddyn 7 â'r un profiadau dysgu blaenorol.

Yn ychwanegol, yn dilyn canlyniadau'r gweithgarwch hunanwerthuso, bu staff yn gweithio gyda disgyblion i sefydlu grŵp cymorth LGBT. Bu'r grŵp yn allweddol o ran gwneud newidiadau cadarnhaol yn lleoliad yr ysgol i gefnogi disgyblion trawsryweddol, fel cyflwyno polisi gwisg ysgol niwtral o ran rhywedd ac opsiwn i ddewis defnyddio nifer fach o doiledau a chyfleusterau newid niwtral o ran rhywedd. Mae'r grŵp wedi cysylltu ag ysgolion eraill a'r awdurdod lleol i rannu arfer dda. Bellach, mae swyddogion cymorth bugeiliol yr ysgol yn darparu cymorth penodol i ddisgyblion LGBT, ac mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiadau ag ystod eang o asiantaethau allanol, fel Stonewall, Umbrella Cymru a Mind Casnewydd, i ddarparu cymorth penodol i ddisgyblion LGBT pan fydd angen. Mae dysgu proffesiynol, sydd wedi'i gynllunio'n dda, wedi cynorthwyo staff i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o faterion LGBT, a chefnogi disgyblion o ganlyniad.

58 Mae arweinwyr effeithiol yn meithrin ystyriaeth o les ac iechyd meddwl dysgwyr yn eu trefniadau hunanwerthuso. Mewn ychydig iawn o achosion, maent yn defnyddio trefniadau hunanwerthuso a gwella yn dda i ystyried eu darpariaeth ar gyfer dysgwyr LGBT a'i datblygu ymhellach. Yn yr ysgolion mwyaf cynhwysol, mae arweinwyr a llywodraethwyr yn sicrhau bod Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol yn cynnwys camau gweithredu sydd â'r nod o wella pa mor dda maent yn mynd i'r afael â materion LGBT, er enghraifft trwy adolygu polisi'r ysgol ar gyfer ymsefydlu staff, i sicrhau bod staff newydd yn deall ymagwedd yr ysgol at gofnodi a mynd i'r afael ag achosion o fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig.

59 Mewn llawer o ysgolion a cholegau, mae arweinwyr yn cyflwyno systemau electronig i nodi achosion o fwlio. Yn yr achosion gorau, defnyddiant y wybodaeth hon i gofnodi, adrodd a helpu mynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig. Yn yr ysgolion a'r colegau mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn creu amgylchedd lle mae staff a dysgwyr yn deall y niwed y mae iaith homoffobig, deuffobig a thrawsffobig yn ei achosi. Yn y darparwyr hyn, mae staff yn arddangos ymagwedd dim goddefgarwch ac yn mynd i'r afael yn gadarn ag effaith negyddol y defnydd hwn o iaith pan fydd achosion yn codi. Mae ychydig o ysgolion yn defnyddio arferion cyfiawnder adferol yn dda i fynd i'r afael â materion gwahaniaethu. Mae'r arfer hon yn helpu sicrhau bod cyflawnwyr yn ystyried effaith eu gweithredoedd, ac yn fwy tebygol o'u hatal rhag ailadrodd y tramgwydd. Fodd bynnag, mewn gormod o ysgolion, nid yw arweinwyr yn cofnodi achosion o fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig i nodi tueddiadau neu weithredu i fynd i'r afael â nhw.

Yn ei chanllawiau diweddar, 'Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir', mae **Llywodraeth Cymru** (2019b, tud.69) yn amlinellu ei disgwyliadau o sut dylai ysgolion gofnodi a monitro bwlio:

'Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion gofnodi pob digwyddiad o fwlio, gan amlinellu'r mathau penodol o fwlio, yn cynnwys bwlio sy'n ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fonitro prosesau yn rheolaidd. Fe wnaiff hyn alluogi ysgolion i addasu eu polisïau bwlio i ymateb i dueddiadau penodol a materion sy'n dod i'r amlwg yn gyflym ac yn effeithiol.'

60 Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae arweinwyr wedi bod yn llai llwyddiannus yn sicrhau amgylchedd cadarnhaol ar gyfer dysgwyr LGBT nag ar gyfer y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig eraill. Yn aml, mae hyn o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys peidio â chydnabod pwysigrwydd rhoi blaenoriaeth i gynnwys dysgwyr LGBT, ofni adborth negyddol gan rieni a'r gymuned ehangach, a diffyg hyder ymhlith arweinwyr a staff o ran mynd i'r afael â materion LGBT. Mae gwaddol deddfwriaeth, fel Adran 28 Deddf Llywodraeth Leol 1998 (diddymwyd ers hynny - gweler tudalen 2) yn ffactor cyfrannol hefyd.

61 Mae llawer o staff sy'n LGBT yn fwy amharod o hyd i gyfeirio at eu perthnasoedd personol na'u cydweithwyr heterorywiol, oherwydd pryderon am ymateb negyddol gan bobl eraill, fel rhieni ac aelodau eraill o staff.

62 Mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw arweinwyr yn rhoi digon o flaenoriaeth i fynd i'r afael â stereoteipiau, ac nid ydynt yn mynd i'r afael â theipgastio amhriodol yn ddigon effeithiol, wrth i achosion godi.  Nid ydynt yn cydnabod bod defnyddio iaith amhriodol wedi'i thargedu tuag at ddysgwyr nad ydynt yn LGBT yn fath o fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig, er enghraifft defnyddio'r gair 'gay'.  I ddysgwyr sy'n LGBT neu'r rhai sy'n cwestiynu eu cyfeiriadedd rhywiol neu'u hunaniaeth o ran rhywedd, mae dysgu mewn amgylchedd lle mae defnyddio iaith homoffobig, deuffobig a thrawsffobig yn gyffredin, ac nid yw'n cael ei herio gan staff, yn fygythiol a gall waethygu teimladau o unigrwydd ac arwahanrwydd ymhellach.

63 Hyd yn oed yn yr ysgolion uwchradd hynny sy'n ceisio gwella profiad addysgol disgyblion LGBT a ble maent wedi sefydlu grwpiau llais disgyblion LGBT, mae arweinwyr yn tueddu i fod â barn rhy gadarnhaol am y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion LGBT ac ansawdd eu profiad ysgol.  Mae effaith y grwpiau hyn yn dylanwadu ar natur ac ansawdd y ddarpariaeth yn amrywiol.

12.11.19

Gender Stereotypes

To William

my Name is mila I am 6 years old in
year 2. I read your book it Makd [made] me
rile sad because I play dinsalls and so
dus [does] my sister and no one maks fun
of us. So it is ok is a Babby doll
is your favourite. Your grandma seems
nice because she got you a baby doll and that
is inpertare because your risky worried so.
we dont have steefeaty pes in my school because we are
all respeck fall [respectful] I hope you understand my infolta [importan]
letter.



## 5 Dysgu proffesiynol

64 Ar eu gorau, mae arweinwyr yn sicrhau dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gyfer pob un o'r staff sy'n rhoi iddynt y medrau, y wybodaeth a'r hyder i gefnogi dysgwyr LGBT. Yn yr achosion hyn, mae'r effaith fwyaf ar ansawdd y cymorth ar gyfer pobl ifanc LGBT, yn enwedig o ran datblygu ethos cadarnhaol ar hyd y darparwr tuag at gynnwys dysgwyr LGBT. Yn aml, cyflwynir yr hyfforddiant hwn gan sefydliadau allanol ag arbenigedd penodol ym maes cefnogi dysgwyr LGBT.

65 Mewn ychydig o achosion, mae dysgu proffesiynol yn digwydd ar draws grŵp o sefydliadau ac ar draws sectorau. Mae hyn yn effeithiol o ran cefnogi parhad mewn darpariaeth, ac yn helpu sicrhau bod disgyblion LGBT yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn llwyddiannus. O bryd i'w gilydd, mae awdurdodau lleol yn cymryd rôl arweiniol yn amlygu'r angen i ysgolion ddatblygu eu gallu i gefnogi disgyblion LGBT. Maent yn gweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i wella hyder staff trwy hwyluso hyfforddiant gan bartneriaid allanol.

Bu **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** yn arwain ysgolion uwchradd o fewn yr awdurdod mewn proses i ddefnyddio data o arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion i nodi meysydd lles disgyblion yr oedd angen eu datblygu. Nododd y gwaith hwn angen cyffredin am gymorth ychwanegol ynglŷn â materion LGBT. Er mwyn ymateb i hynny, estynnodd yr awdurdod wahoddiad i Stonewall Cymru a Viva LGBT weithio mewn partneriaeth i gyflwyno gweithdy ymwybyddiaeth o LGBT ar gyfer ysgolion uwchradd Conwy. O ganlyniad i'r gweithdai, gofynnodd personél ysgolion ac addysg am ragor o hyfforddiant.

Ym mis Hydref 2018, manteisiodd yr awdurdod lleol ar gyllid gan GwE, y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, i gyflwyno sesiynau 'hyfforddi'r hyfforddwr' Stonewall i 12 o bersonél addysg. Roedd hyn yn cynnwys un cynrychiolydd o bob un o ysgolion uwchradd Conwy, yn ogystal â staff yr awdurdod lleol. Roedd effaith yr hyfforddiant yn gadarnhaol. Fe wnaeth ysgolion groesawu'r cyfle i gael eu hysbysu a'u harfogi'n well i hyrwyddo cynwysoldeb. Bu'r staff hyfforddedig o ysgolion a'r awdurdod yn cydweithio â phartneriaid eraill, fel Viva LGBT ac athrawon cynradd, i ddatblygu polisi hunaniaeth o ran rhywedd, sy'n esblygu o hyd. Mae'r awdurdod wedi cyflwyno gweithdai ymgynghori ar gyfer personél ysgolion, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni i drafod y polisi, a chytuno ar ei gyflwyno mewn ysgolion.

O ganlyniad i'r fenter gan yr awdurdod lleol, mae **Ysgol Dyffryn Conwy** wedi gweithio gyda disgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr a phartneriaid allanol, fel TRAC a Viva LGBT, i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan at y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion LGBT. Mae hyn yn cynnwys datblygu amgylchedd cynhwysol trwy fapio addysg cydberthynas a rhywioldeb ar draws ei chwricwlwm a chyflwyno themâu cynhwysol heb stereoteipiau yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n cyflwyno cymorth ar gyfer disgyblion LGBT penodol a'u teuluoedd trwy weithio mewn partneriaeth â chydlynydd lles TRAC a gweithwyr ieuenctid arweiniol Viva LGBT. Erbyn hyn, mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd clwstwr i sicrhau continwwm o ddysgu addysg cydberthynas a rhywioldeb o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.

66 Mewn ysgolion a cholegau effeithiol, mae arweinwyr yn sicrhau pwysigrwydd hyrwyddo cydraddoldeb, ac mae dathlu amrywiaeth yn ffurfio rhan o weithdrefnau ymsefydlu ar gyfer staff a llywodraethwyr newydd. Maent yn amlygu pwysigrwydd hyn wrth gyfathrebu, er enghraifft trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

67 Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn gweithio gyda chydweithwyr mewn ysgolion eraill i sicrhau darpariaeth effeithiol ar draws sefydliadau.

Mae clwstwr o ysgolion cynradd yn defnyddio profiad ac arbenigedd aelod o staff o un o'i ysgolion i arwain ar faterion LGBT a darparu cymorth i ddisgyblion a theuluoedd. O ganlyniad i brofiad uniongyrchol yr aelod staff o gefnogi proses 'dod allan' perthynas, fe wnaeth gefnogi rhieni plentyn yn yr ysgol a oedd yn cwestiynu ei gyfeiriadedd rhywiol. Dros gyfnod, mae'r rôl hon wedi cael ei ffurfioli, wedi arwain at hyfforddiant ar gyfer pob un o'r staff o Stonewall, a datblygwyd ei rôl yn cydlynu cymorth o ran materion LGBT ar draws y clwstwr. Mae'n rhoi cymorth empathig i ddisgyblion LGBT a'u teuluoedd sy'n ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, ac yn cynnwys mecanweithiau cymorth gan asiantaethau arbenigol. Fel rhan o'i rôl, mae'n helpu ysgolion i greu diwylliant o agoredrwydd, y mae disgyblion yn gyfforddus yn archwilio materion sensitif ynddo. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys herio stereoteipiau o ran teulu a rhywedd trwy'r cwricwlwm. Hefyd, mae'n cynnwys darparu amgylchedd diogel, wedi'i ategu gan bolisïau sy'n mynd i'r afael â bwlio, yn atal defnydd o iaith gas ac yn helpu newid meddylfryd trwy addysg adferol.

68 At ei gilydd, ledled Cymru, ychydig iawn o staff ysgolion cynradd a lleiafrif o staff ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach sydd wedi cael hyfforddiant ar sut i hyrwyddo cynnwys dysgwyr LGBT, cefnogi dysgwyr LGBT a mynd i'r afael â bwlio homoffobig. Mae bron pob un o'r staff yn dymuno cynorthwyo dysgwyr i deimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol neu'r coleg, a chyflawni eu potensial. Fodd bynnag, mae gormod ohonynt yn ansicr ynglŷn â'r ffordd orau i sicrhau hyn ar gyfer pobl ifanc LGBT ac nid oes ganddynt yr hyder i siarad amdanynt am faterion LGBT.

69 Mae lleiafrif o staff ysgolion uwchradd ac ychydig o staff ysgolion cynradd yn teimlo'n hyderus yn cefnogi disgyblion sy'n dweud wrthyn nhw eu bod am ddod allan. At ei gilydd, nid oes digon o staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a cholegau addysg bellach wedi cael hyfforddiant mewn sut i gefnogi dysgwyr LGBT. Yn benodol, nid yw dysgu proffesiynol ar gyfer staff ynglŷn â chefnogi dysgwyr trawsryweddol wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

70 Mae ychydig o achosion o gydweithio rhwng ysgolion i ddatblygu medrau staff mewn cefnogi disgyblion LGBT. Fodd bynnag, yn aml, mae hyfforddiant ar ffurf cyrsiau unigol sy'n cael effaith gyfyngedig ar ddarpariaeth gyffredinol o fewn darparwyr. Yn rhy aml, mae effaith hyfforddiant allanol yn fyrhoedlog ac nid yw'n cael effaith hirdymor ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd diffyg ymrwymiad i gynhwysiant gan uwch arweinwyr.

# Atodiad 1: Cwestiynau hunanwerthuso i gefnogi cynnwys dysgwyr LGBT

Wrth ystyried eu darpariaeth ar gyfer cefnogi dysgwyr LGBT, dylai ysgolion a cholegau ystyried y cwestiynau canlynol:

- I ba raddau y mae dysgwyr yn gweld modelau rôl LGBT cadarnhaol trwy'r cwricwlwm, ac yn yr amgylchedd dysgu ehangach?
- Pa mor dda y mae'r cwricwlwm yn ymgorffori trafodaeth sy'n briodol i ddatblygiad ynglŷn â materion LGBT?
- I ba raddau y mae gan staff y medrau, y wybodaeth a'r hyder i gefnogi dysgwyr ynglŷn â materion LGBT?
- Pa mor dda y mae'r ysgol neu'r coleg yn cysylltu â rhieni, gofalwyr ac unigolion perthnasol eraill i gefnogi anghenion dysgwyr LGBT?
- Pa mor effeithiol yw systemau i sicrhau bod dysgwyr yn gwybod sut i fynd ati i siarad ag aelod o staff am faterion personol, gan gynnwys y rhai yn gysylltiedig â 'dod allan'?
- A yw arweinwyr wedi ymgysylltu'n effeithiol â rhieni a'r gymuned ehangach i esbonio eu rhesymeg a'u hymagwedd at addysg cydberthynas a rhywioldeb?
- Pa mor effeithiol a chadarn y mae arweinwyr yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig?
- A yw arweinwyr a llywodraethwyr wedi adolygu eu polisïau a'u gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn cydnabod, yn cofnodi ac yn mynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig, wrth i achosion godi?
- Pa mor dda y mae arweinwyr a llywodraethwyr yn cynnwys lles dysgwyr LGBT fel rhan o'u prosesau hunanwerthuso?
- I ba raddau maen nhw'n ystyried safbwyntiau dysgwyr, gan gynnwys pobl ifanc LGBT, ynglŷn â chynrychioli pobl LGBT yn y cwricwlwm a'r amgylchedd dysgu?
- Beth yw ansawdd y dysgu proffesiynol ar gyfer staff i'w helpu i gefnogi dysgwyr LGBT?
- Pa mor effeithiol y mae dysgu proffesiynol yn helpu i greu ethos o gynhwysiant lle mae amrywiaeth yn cael ei dathlu a rhagfarn yn cael ei herio?

# Atodiad 2: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio:

- ystod o dystiolaeth arolygu
- ymweliadau ag ystod o ysgolion cynradd ac uwchradd a cholegau addysg bellach
- canlyniadau holiaduron ar gyfer dysgwyr yn yr ysgolion uwchradd a'r colegau y gwnaethom ymweld â nhw
- trafodaethau â swyddogion awdurdodau lleol a gweithwyr ieuenctid
- adolygiad o lenyddiaeth

Yr ysgolion a'r colegau y gwnaethom nodi eu bod yn addas ar gyfer ymweliad yw'r rhai lle mae gweithgarwch arolygu, neu waith consortia addysgol, yn awgrymu bod arfer effeithiol o ran cefnogi disgyblion LGBT a chreu hinsawdd o gynhwysiant yn bodoli.

Roedd y gweithgareddau a ddefnyddiodd arolygwyr i gasglu gwybodaeth wrth ymweld ag ysgol neu goleg yn amrywio yn ôl cyd-destun y sefydliad, a natur y gwaith, ond bu'n cynnwys:

- cyfweliadau ag uwch arweinwyr
- cyfweliadau ag athrawon a staff cymorth
- cyfweliadau â grwpiau llais y dysgwr, fel grwpiau LGBT, grwpiau cydraddoldeb a chynghorau ysgol
- arsylwi sesiynau a gweithgareddau
- edrych ar enghreifftiau o waith dysgwyr
- craffu ar bolisïau a chynlluniau gwaith

Hoffai Estyn ddiolch i'r ysgolion a'r colegau canlynol a gefnogodd yr adolygiad thematig hwn:

- Ysgol Uwchradd Basaleg, Casnewydd
- Coleg Caerdydd a'r Fro, Caerdydd
- Ysgol Gynradd Eveswell, Casnewydd
- Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd
- Ysgol Gynradd Yr Hafod, Abertawe
- Ysgol Gynradd Lansdowne, Caerdydd
- Ysgol Uwchradd Lewis Pengam, Caerffili
- Y Coleg, Merthyr Tudful
- Ysgol Gynradd Overmonnow, Sir Fynwy
- Ysgol Gynradd Pembroke, Sir Fynwy
- Ysgol Uwchradd Pen y Dre, Merthyr Tudful
- Ysgol Bro Cinmeirch, Sir Ddinbych
- Ysgol Uwchradd Coedcae, Sir Gaerfyrddin
- Ysgol Dyffryn Conwy, Conwy

- Ysgol Glan Morfa, Caerdydd
- Ysgol Gymraeg Casnewydd, Casnewydd
- Ysgol Mynydd Bychan, Caerdydd
- Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Caerdydd

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **Arferion adferol** | Mae dull adferol yn ffordd o ddatrys gwrthdaro sy’n canolbwyntio ar wneud iawn am y niwed a wnaed. Mae’r dull yn gofyn i bawb sy’n gysylltiedig â’r gwrthdaro rannu â’i gilydd beth oedd eu hymglymiad, sut mae’r gwrthdaro wedi effeithio arnyn nhw, a chytuno ar beth mae angen ei wneud i unioni’r sefyllfa. |
| **Bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig** | Mae bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig yn fwlio sy’n cael ei gyfeirio at rywun sy’n lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol neu’n drawsryweddol, neu’n amgyffred ei hun felly. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Hunaniaeth rywiol unigolyn mewn perthynas â’r rhyw y mae’n cael ei ddenu ato; bod yn heterorywiol, yn gyfunrhywiol neu’n ddeurywiol. |
| **Darpariaeth barhaus ac estynedig** | Darpariaeth barhaus yw defnyddio adnoddau sydd ar gael yn barhaus yn yr ystafell ddosbarth dan do neu yn yr awyr agored i ddisgyblion eu defnyddio yn annibynnol. Darpariaeth estynedig yw'r ychwanegiadau at y ddarpariaeth barhaus i ysgogi plant i feddwl yn ddyfnach, ymarfer medrau newydd, neu ddysgu ffyrdd newydd o weithio. |
| **Hunaniaeth o ran rhywedd** | Amgyffrediad unigolyn o gael rhywedd penodol, sydd efallai, neu efallai ddim, yn cyd-fynd â’i ryw adeg ei eni |
| **Nodweddion gwarchodedig** | Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amlinellu’r nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth. |
| **Pride** | Mae Pride yn dathlu’r gymuned LGBT. Cynhelir cannoedd o ddigwyddiadau Pride bob blwyddyn, mewn trefi a dinasoedd ledled y DU, ac ym mhob cwr o’r byd. Mae pob digwyddiad Pride yn wahanol, ond mae llawer yn cael gorymdaith liwgar trwy’r dref neu’r ddinas. |
| **Stereoteipio o ran rhywedd** | Rhagdybiaeth gyffredinol am briodoleddau, nodweddion neu rolau y dylai menywod a dynion feddu arnynt neu’u cyflawni. |
| **Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion** | Mae’r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn bartneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac asiantaethau eraill. Ei nod yw gweithio gydag ysgolion i ddarparu data ar iechyd a lles ac ymchwil i gefnogi polisi ac arfer ar lefelau lleol a |

chenedlaethol.

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Crynodeb o sefydliadau sy’n cefnogi dysgwyr LGBT sy’n cael eu crybwyll yn yr adroddiad

| | |
|---|---|
| **Digartref Ynys Môn** | Mae’n darparu atebion tymor byr a thymor hir ar gyfer y rhai sy’n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. |
| **Iris Outreach** | Is-adran o Ŵyl Gwobrau Iris. Ei nod yw darparu cymorth ac addysg i ysgolion, sefydliadau a grwpiau cymunedol ym mhob cwr o Gymru trwy feithrin partneriaethau i roi medrau a gwybodaeth am arbenigwyr y diwydiant ffilm i gyfranogwyr, yn ogystal â hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. |
| **Mind Casnewydd** | Sefydliad wedi’i leoli yng Nghasnewydd sy’n darparu ystod o wasanaethau i gynghori a chefnogi’r rhai sy’n profi problemau iechyd meddwl. |
| **Stonewall Cymru** | Sefydliad ymgyrchu sy’n amcanu at sicrhau cydraddoldeb cyfreithiol a chyfiawnder cymdeithasol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol yng Nghymru. |
| **TRAC** | Prosiect yng Ngogledd Cymru a arweinir gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 11 a 24 mlwydd oed sydd mewn perygl o ymddieithrio ag addysg. |
| **Umbrella Cymru** | Eu nod yw cefnogi pobl LGBT a datblygu amrywiaeth rywiol ac o ran rhywedd, cydraddoldeb a chynhwysiant ledled Cymru. |
| **Viva LGBT** | Mae Viva yn darparu grwpiau ieuenctid a chymorth ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 25 oed sy’n nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol neu’r rhai nad ydynt yn siŵr eto. |

# Cyfeiriadau

DePalma, R. ac Atkinson, E. (2009) 'No Outsiders': moving beyond a discourse of tolerance to challenge heteronormativity in primary schools. [Ar-lein]. *British Educational Research Journal* **35** (6), 837-855. Ar gael o: https://doi.org/10.1080/01411920802688705 [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Estyn (2017) *Dysgu Gweithredol a Thrwy Brofiad.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Estyn%2520Active%2520and%2520experiential%2520learning_W_Accessible_0.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Llywodraeth Cymru (2011) *Parchu Eraill: Bwlio Homoffobig.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-05/respecting-others-homophobic-bullying.pdf [Darllenwyd 4 Mawrth 2020]

Llywodraeth Cymru (2016) *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/canllawiau-cynnwys-a-chynorthwyo-disgyblion_0.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Llywodraeth Cymru (2019a) *Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-02/addysg-cydberthynas-a-rhywioldeb-mewn-ysgolion-canllawiau.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Llywodraeth Cymru (2019b) *Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-11/hawliau-parch-cydraddoldeb-canllawiau-statudol-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-a-gynhelir.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Llywodraeth Cymru (2019c) *Bwlio yn yr ysgol: Canllawiau a gwasanaethau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/bwlio-yn-yr-ysgol?_ga=2.58647914.1566808653.1601285130-233290206.1543926556 [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Llywodraeth Cymru (2019d) *Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/canllawiau-statudol-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-ysgolion-ar-bolis%C3%AFau-gwisg-ysgol-ac-edrychiad-disgyblion_0.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Llywodraeth Cymru (2019e) *Strategaeth gwaith ieuenctid Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/strategaeth-gwaith-ieuenctid-cymru.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Prydain Fawr (1988) *Deddf Llywodraeth Leol*. Llundain: Y Llyfrfa

Prydain Fawr (2010) *Deddf Cydraddoldeb 2010.* Llundain: Y Llyfrfa

Stonewall (2015) *Cyflwyniad i gefnogi pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws: Canllaw i ysgolion*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.stonewall.org.uk/system/files/supporting_lgbt_young_people_welsh.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Stonewall (2016a) *Dechrau Arni: Pecyn cymorth ar gyfer atal a thaclo bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd mewn ysgolion uwchradd*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.stonewall.org.uk/system/files/dechrau_arni_ysgolion_uwchradd_2016.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Stonewall (2016b) *Dechrau Arni Cynradd Cymru: Pecyn cymorth ar gyfer atal a thaclo bwlio homoffobaidd, deuffobaidd a thrawsffobaidd mewn ysgolion cynradd.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/system/files/dechrau_arni_ysgolion_cynradd_2016.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Stonewall (2017a) *Dechrau Arni: Dathlu gwahaniaeth a herio stereoteipiau o ran rhywedd yn y blynyddoedd cynnar a'r cyfnod sylfaen*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.stonewall.org.uk/system/files/getting_started_early_years.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Stonewall (2017b) Adroddiad Ysgol Cymru: Profiadau pobl ifanc lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn ysgolion Cymru yn 2017. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/system/files/adroddiad_ysgol_stonewall_cymru_2017.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Stonewall (2017c) School Report: The experience of lesbian, gay, bi and trans pupils in Britain's schools in 2017. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.stonewall.org.uk/system/files/the_school_report_2017.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Stonewall (2018a) *Creating an LGBT-Inclusive Curriculum: A Guide for Secondary for Secondary Schools*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.stonewall.org.uk/system/files/inclusive_curriculum_guide.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Stonewall (2018b) *Primary Best Practice Guide 2018: How primary schools are celebrating difference and tackling homophobia, biphobia and transphobia.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.stonewall.org.uk/system/files/stonewall_primary_best_practice_guide_2018_-_final.pdf [Darllenwyd 4 Mawrth 2020]

Stonewall (2019) *Ten steps to tackling homophobic, biphobic and transphobic language in your school*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.stonewall.org.uk/system/files/hbt_language_final_low_res.pdf [Darllenwyd 6 Chwefror 2020]

Warwick, I. ac Aggleton, P. (2014) Bullying, 'cussing' and 'mucking about': complexities in tackling homophobia in three secondary schools in south London, UK. *Sex Education* **14** (2), 159-173

Y Cenhedloedd Unedig (1989) *Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.ohchr.org/en/professionalinterest/pages/crc.aspx